Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

# DIWYGIADAU CREFYDDOL

# IWERDDON.

GAN Y

## PARCH. W. THOMAS,

WHITLAND.

"HYD AMSER Y DIWYGIAD."—PAUL.

LLANELLI:

ARGRAFFWYD GAN REES A WILLIAMS, HEOL-Y-PARC,

1859.

PRIS CHWE CHEINIOG.

# DIWYGIADAU CREFYDDOL IWERDDON.

GAN Y

PARCH. W. THOMAS,

WHITLAND.

"HYD AMSER Y DIWYGIAD."—PAUL.

LLANELLI:

ARGRAFFWYD GAN REES A WILLIAMS, HEOL-Y-PARC,

1859.

**PRIS CHWE CHEINIOG.**

Bt. from R. G. Booth.

BODLEIAN
P
3 MAY 1966
LIBRARY

# RHAGYMADRODD.

ANWYL GYDWLADWYR.—Hyderaf y byddwch yn weddol dyner wrth feirniadu cynwysiad y llyfr hwn, o herwydd mai efe yw y cyntaf ddaeth o dan fy llaw; ond os na ddengys rhai o honoch dynerwch i mi, gallaf ddweyd yn onest wrthych, fy mod wedi gwneud fy ngorau o'r dechreu i'r diwedd. Yr wyf yn cyhoeddi y ffeithiau sydd yn y llyfr

1. Er mwyn fy hun.
2. Er mwyn yr eglwys.
3. Er mwyn y byd.
4. Er mwyn yr oesau dyfodol.
5. Er mwyn gogoniant Duw.

Fy nymuniad didwyll wrth gyflwyno y llyfr hwn i'r cyhoedd, yw, *am i'r gwirioneddau sydd ynddo gael eu hargraffu gan Ysbryd Duw ar ddeall, cydwybod, a chalon pob un a'i darlleno.*

Yr eiddoch,

Anwyl Gydwladwyr,

Yn rhwymau cariad,

W. THOMAS.

*Hydref 3ydd*, 1859.

# CYNWYSIAD.


PENNOD I.

*Diwygiad Crefyddol y bumed ganrif, tu-dalen* 5—10.

PENNOD II.

*Diwygiad Crefyddol yr unfed ganrif ar bymtheg, tu-dal.* 10—15.

PENNOD III.

*Diwygiad Crefyddol yr ail ganrif ar bymtheg, tu-dalen* 15—20.

PENNOD IV.

*Diwygiad Crefyddol y ddeunawfed ganrif, tu-dalen* 20—25.

PENNOD V.

*Diwygiad Crefyddol rhyfeddol y flwyddyn* 1859, *tu-dalen* 25, *hyd y diwedd.*

# DIWYGIADAU CREFYDDOL IWERDDON.

UN o'r Ynysoedd Prydeinig yw Iwerddon. Ystyrir hi yn ail ynys mewn maintioli yn Ewrop. Ei phrif raniadau ydynt y rhai canlynol:—Leinster yn y Dwyrain, Ulster yn y Gogledd, Munster yn y Dê, a Connaught yn y Gorllewin. Y mae yn 300 o filltiroedd o hyd, ac yn 170 o filltiroedd o led. Gorwedda yn mynwes gynhyrfus yr Atlantic. Hawlia y Gwyddel hi fel ei wlad ei hun. Cafodd ei galw yn *Green, or Emerald Isle*, neu Ynys Werdd, gan y Beirdd, o herwydd ei ffrwythlonrwydd a'i gwyrddlesni parhaus. Dengys hanesyddiaeth fod Duw wedi cofio yr ynys mewn trugaredd, mewn gwahanol oesau, i raddau mwy neu lai. Bendithiwyd gwahanol gyrau yr ynys â chafodydd trymion o ddylanwadau Dwyfol, yn achlysurol, er pan gyhoeddwyd Cristionogaeth gyntaf i'w phreswylwyr anwaraidd hyd yn awr.

## PENNOD I.

### DIWYGIAD CREFYDDOL Y BUMED GANRIF.

HYD y Diwygiad bendithfawr hwn yr oedd ôlion Derwyddol yn y meddwl Gwyddelig, ynghyd ag yn ymarferiadau cymdeithasol y genedl. Credent athrawiaethau, elent trwy ddyledswyddau, a chânent emynau Derwyddol. Y mae yn anhawdd dweyd yn benderfynol pwy bregethodd Gristionogaeth gyntaf i'r Gwyddelod. Dywed rhai i Esgob Rhufain anfon dyn o'r enw Palladius, i bregethu Cristionogaeth iddynt—iddo fod yn ymdrechu yn yr Ynys am ysbaid, ond yn aflwyddianus, o herwydd ei anwybodaeth o iaith, a defodau y genedl. Dywed ereill mai Succah, neu St. Patrick, gyhoeddodd Gristionogaeth gyntaf yn yr ynys. Dyma farn yr haneswyr enwocaf yn ngolwg y byd uniawngred. Os ymwelodd Palladius a'r ynys, y mae sicrwydd iddo fethu cynhyrfu y bobl i

feddwl am eu diwedd. Ac mor wir ag i St. Patrick dalu ymweliad cenadol â'r un lle, fe fu yn offerynol yn llaw Duw i ddihuno canoedd o breswylwyr yr Ynys Werdd o gysgadrwydd moesol mewn ychydig amser.

Ganwyd St. Patrick yn Kilpatrick, pentref yn agos i Glasgow, Scotland. Yr oedd un o'i rieni yn Frythoniad, a'r llall yn Rhufeiniad: felly gallasai hòni perthynas â'r ddwy genedl uchod. Yr oedd yn fachgen o dymer fywiog, ac o deimladau cynhyrfus. Cafodd rieni crefyddol iawn. Yr oeddent mor grefyddol fel yr oedd cyflwr moesol y plant yn agos iawn at eu calon. Enbyd meddwl fod rhieni yn ddiofal yn nghylch cadwedigaeth eu plant. Rhoddodd Duw ofal Patrick i dad a mam dduwiol. Cynghorent lawer iawn arno—gweddient lawer iawn drosto—cyflwynent ef i ofal Duw yn aml—hyfforddent ef yn athrawiaethau Cristionogaeth—amcanent yn nghymhorth Duw gyrhaedd ei galon cyn y cymerasai y diafol feddiant o honi; ond er holl gynghorion, gweddiau, hyfforddiadau, a phryder y rhieni, yr oedd y bachgen yn lled ddiofal. Nid oedd ef yn bryderus yn nghylch ei sefyllfa foesol ei hun; nid oedd ef yn gweddio ei hun; yr oedd yn lled ysgafn a chellweirus ar rai prydiau. Gofidiai hyn ei rieni yn fawr; ofnent y gwaethaf, tra y gobeithient y goreu. Meddylient nad elsai eu hymdrechiadau i achub eu plant yn ofer, ac y buasai Duw yn gwrando eu gweddiau yn gynt, neu yn hwyrach. Dylai rhieni barhau yn ddiflino i arwain meddyliau eu plant at yr hyn sydd dda; er diofalwch ac anystyriaeth y cyfryw. Ni ddigalonodd rhieni Patrick, er nad oeddent yn cael un prawf yn ei ymddygiad ei fod yn credu, ac yn teimlo dylanwad ysbrydol eu hyfforddiadau. O herwydd ryw resymau neu gilydd, fe symudodd Calpurnius,* a Conchessa o Scotland i Armorica Bretagne Ffrainc i fyw. Yno cyfarfyddasant ag anffawd ymddangosiadol. Pan oedd Patrick, a'i ddwy chwaer yn chwareu ar làn y môr, daeth torf o fôr-ladron Gwyddelig o hyd iddynt yn ddiarwybod i'w rhieni—O'Neal oedd eu llywydd. Cymerasant y plant i'r Iwerddon, a gwerthasant hwynt yn gaethion i bendad rhyw lwyth

* Rhieni Patrick.

paganaidd yno. Yr oedd yn rhaid i'r plant, druain, bellach weithio yn galed dan gaeth-feistr, ac nid chwareu ar làn y môr, fel o'r blaen. Anfonwyd Patrick yn ddiseremoni, i borthi moch, fel yr afradlon gynt. Gwaith anhyfryd i un nad oedd wedi arfer ei wneud yn flaenorol. Yr oedd heb wneud yn ol hyfforddiadau ei rieni eto. Yr oedd ei gydwybod yn cysgu yn dawel, a'i galon heb ei chyffwrdd eto. Ond pan oedd Patrick ieuanc yn ymdroi yn nghanol y moch, fe ddaeth ato ei hun—fe gofiodd gynghorion a gweddiau taerion ei rieni yn Scotland a Ffrainc. Dihunodd ei gydwybod ar ol bod yn cysgu blyneddau—gwelodd erchylldra ei bechod—ocheneidiodd yn bryderus, ac wylodd ddagrau lawer. Nid oedd ganddo neb i droi ato yn awr ond Duw. Pe buasai ei rieni o hyd iddo yn awr, buasent yn gymhorth mawr iddo feddyliem. Ac yn y randir baganaidd hòno, yn nghanol paganiaid anwaraidd, y derbyniodd y Ceidwad y clywodd gymaint o son am dano gan ei rieni gartref yn y blyneddau gynt. Yno y ganwyd ef oddiuchod, ac yr ysgrifenodd Ysbryd Duw y gyfraith ar lechau ei galon, ac y torodd tân diwygiad allan yn ei feddwl, yn mhell oddiwrth ddiwygwyr, offeiriaid, ac esgobion. Un ar bymtheg oed oedd pan gymerodd hyn le. Bu yn gaethwas am 6 mlynedd yn Iwerddon; felly cafodd fantais i ddysgu iaith, ac i ddod yn gyfarwydd ag arferion y Gwyddelod, yr hyn oedd yn fanteisiol iawn iddo pan yn llafurio fel cenadwr yn eu plith. Gwelwn yma y Rhagluniaeth yn parotoi deall, teimlad, cydwybod, a chalon Patrick, gogyfer â'r gwaith mawr oedd o'i flaen yn Iwerddon trwy amgylchiadau, gwirioneddau, a dylanwadau. Dyma Patrick bellach mewn ysbryd diwygiad gwresog iawn—Cariad Duw wedi ei dywallt ar led yn ei galon ef. Yr oedd yn hynod hoff o weddio—gweddiai yn ddibaid. Y mae pob dyn gwir ddychweledig yn gweddio. Gweddiodd Patrick un diwrnod gant o weithiau. Gallwn ddweyd yn ddibetrus, nad oedd gweddio Duw yn faich arno, os felly yr oedd. Nid yw gweddio yn faich ar un dyn duwiol ychwaith; mwy nag yw anadlu yn faich arno. Yr oedd pob peth yn dylanwadu yn wahanol arno yn awr. Yr oedd y gwlaw, y rhew, a'r eira, yn peri iddo geisio Duw yn awr. Anogai

holl natur ef i gofio Duw pan yn bugeilio'r moch. Arweiniai yr hyn welai, ac a glywai ei feddwl at Dduw yn anocheladwy. Gwelai ddaioni Duw yn y cwbl, a theimlai ddylanwad y daioni mawr hwnw.

Ar ol i dân Diwygiad dòri allan yn meddwl Patrick yn Iwerddon, agorodd Rhagluniaeth y drws iddo fyned i weled â'i rieni yn Ffrainc, ar ol bod oddiwrthynt gynifer o flyneddau. Yr oedd chwant gweled ei dad a'i fam arno er ys amser. Yr oeddent yn anwylach ganddo yn awr nag erioed. Carai hwynt yn wresog o herwydd eu gofal mawr am dano gynt, a'u hymdrech i gael ei enaid i ddiogelwch moesol a thragwyddol. Cyrhaeddodd drigfa ei rieni yn ddiogel. Yr oedd yn hollol wahanol yn awr i'r peth oedd pan welodd ei rieni ef o'r blaen. Yr oedd yn awr yn gweddio, a Christ yn teyrnasu yn ei galon ef. Dyma lawenydd i rieni. Dyma brawf iddynt fod eu gweddiau wedi cael eu gwrando o'r diwedd. Dyma destyn diolch i dad a mam, gweled plentyn fu ar y gefnffordd lydan yn carlamu tua gwae am flyneddau, er cymaint ddywedent wrtho am arafu, yn teithio yn awr tua gwlad well, a hòno yn un nefol. Wedi cyrhaedd ei hen artref, adroddodd ei helynt er pan welsant ef o'r blaen. Yr oedd yno deimladau gwahanol yn cael eu dangos pan ddywedai sut y cymerwyd ef a'i chwiorydd yn gaethion i'r Iwerddon, a sut y daeth ef i feddwl am ei enaid. Cyfarfyddiad dyddorgar iawn oedd hwn i'r teulu oll. Yr oeddent yn cael cyflawn esboniad yn awr o'r amgylchiad gymerodd le er ys chwe mlynedd yn ol. Ond er anwyled oedd cyfeillach perthynasau a chyfeillion, nid oedd meddwl Patrick yn esmwyth. Nid rhyfedd o herwydd yr oedd yn llestr etholedig gan Dduw i gynyg Crist i'r Gwyddelod—i fynegu ei rinweddau yn yr ynys lle y derbyniodd efei hun. Iwerddon oedd ar ei feddwl yn barhaus: am dani y meddyliai y dydd, ac y breuddwydiai y nos. Dychymygai ei fod yn clywed llais o gonglau tywyllion Iwerddon, yn dweyd yn daer wrtho, "Tyred drosodd, a chynorthwya ni." O'r diwedd penderfynodd ufyddhau, gan gwbl gredu alw o'r Arglwydd ef i efengylu i'r Gwyddelod. Gwyddai y buasai yn rhaid iddo fyned trwy anhawsderau mawrion—gwyddai y buasai ei berthynasau a'i gyfeillion yn taflu rhwystrau ar ei ffordd;

ond nid oedd dim i wneud: hysbysodd ei benderfyniad, gan deimlo fod yn rhaid ufyddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion, ac y buasai gwae yn gyhoeddedig uwch ei ben, os nad elsai. Ymadawodd â'i rieni a'i gyfeillion, a thiriodd yn ddiogel ar dir Iwerddon yn llaw ei Dduw. Dyma gyfnod newydd yn dechreu ar Iwerddon yn bresenol. Dyma Haul y Cyfiawnder yn dechreu tywynu ar eneidiau y trigolion, a'r Seren ddydd yn codi yn eu calonau. Y dull a fabwysiadodd i dynu y bobl ynghyd oedd chwareu *drwm*. Mor fuan ag y clywent y *drwm* ymgyrchent yn dyrfaoedd i'r fan: yna pregethai Patrick iddynt Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio—pregethai yn eglurhad yr Ysbryd, a nerth. Cyrhaeddai ei eiriau gydwybodau a chalonau y gwrandawyr—elent adreu o'r cyfarfodydd yn hollol wahanol i'r hyn oeddent pan elent iddynt. Yr oedd ei bregethau a'i gyfeillachau yn cael eu bendithio gan Ysbryd Duw i fod yn argyhoeddiadol a dychweliadol. Cafodd dderbyniad i deulu tywysog paganaidd cyfrifol yno: yn mhen ychydig bedyddiwyd ef a'i holl deulu i'r ffydd Gristionogol. Enwodd Patrick y mab yn Benignus, o herwydd ei fwyneidd-dra; a Benignus, mab y tywysog hwn, oedd i lanw lle Patrick, fel diwygiwr, ar ol iddo ef gael ei symud i'r byd tragwyddol. Y mae effeithiau y Diwygiad hwn yn dyfod i'r golwg ar y meusydd yn y torfeydd sydd yn gwrando y gwirionedd, yn y teimladau gynyrchai y gwirionedd yn meddyliau y gwrandawyr, yn y cyfnewidiadau gymerai le yn nghalonau a bywydau y gwrandawyr, yn y cyfnewidiadau gymerai le yn nheuluoedd y gwrandawyr,—addoli Duw yn lle addoli delwau, ac yn y cyfnewidiad gymerodd le yn ansawdd barddoniaeth, a chaniadaeth y llŷs. Argyhoeddwyd a dychwelwyd Dubrach Mac Valubair, prif fardd y llŷs; felly cyfansoddai a chânai emynau, yn cynwys mawl i Grist, o hyny allan, ac nid emynau derwyddol, fel o'r blaen. Yr oedd y cyfnewidiadau yn ddigon lluosog i brofi fod Duw yn gweithio ar gyflyrau y bobl. Wedi i Patrick fod yn offerynol i gynhyrfu y Gwyddelod i feddwl am eu cyflyrau moesol, fe'i symudwyd i'r byd tragwyddol. Bu farw gan weled nad oedd y tân ond dechreu cyneu, y gwynt ond dechreu chwythu, y Diwygiad ond dechreu lledu, a'r genedl

Wyddelig ond dechreu plygu. Llanwyd ei le gan Benignus,—coronodd Duw ei ymdrechiadau crefyddol â llwyddiant ysbrydol.

Yn mhen blyneddau ar ol i'r Diwygiad hwn gymeryd lle, fe ymddangosodd Pabyddiaeth yn y byd. Trwy drugaredd yr oedd y Diwygiad wedi cael cymaint o ddylanwad ar feddyliau y Gwyddelod, fel yr oeddent yn ddigon cryf i wrthsefyll ymosodiadau cyfeiliornad. Y mae ymdrech y genedl yn erbyn Pabyddiaeth, yn dangos effeithiau gogoneddus y Diwygiad gymerodd le er ys blyneddau yn ol. Buasai cyfeiliornad yn eu trechu yn rhwydd; oni buasai dylanwad grymus y Diwygiad. Methwyd yn deg a llwyr berswadio y Gwyddelod i dderbyn Pabyddiaeth hyd y ddeuddegfed ganrif. Bu raid i'r Normaniaid a'r Daniaid ymgynghreirio â'u gilydd cyn llwyddo y pryd hwnw. Gwrthwynebodd y Gwyddelod Babyddiaeth yn hwy nag un genedl arall yn Ewrop. Pan oedd cenedloedd ereill yn plygu o flaen y ddelw Babyddol yn rhwydd, safai y Gwyddelod yn syth fyny, fel y llanciau ar wastadedd Dura, a dywedent, Bydded hysbys i ti, O Bab, nad addolwn y ddelw a gyfodaist. Ond gan i Normaniaid Lloegr, a'r Daniaid oedd yn byw yn ngwahanol drefydd Iwerddon gydymosod arnynt plygasant dan iau Pabyddiaeth. Dyma ddirywiad annymunol yn awr lle bu awelon Diwygiad yn chwythu am gymaint amser. Gwaith anhawdd oedd darbwyllo y Gwyddelod i dderbyn Pabyddiaeth, a gwaith mor anhawdd a hyny yw eu darbwyllo i adael Pabyddiaeth. Costiodd ganrifoedd o lafur i'w cael ati, a lled debyg y costia ganrifoedd o lafur i'r eglwys i'w cael oddiwrthi. Gellir galw Diwygiad mawr y bumed ganrif yn Ddiwygiad oddiwrth Dderwyddiaeth a Phaganiaeth.

## PENNOD II.

### DIWYGIAD CREFYDDOL YR UNFED GANRIF AR BYMTHEG.

Y MAE y ganrif hon wedi cael ei hynodi yn fawr gan gynhyrfiadau Germany, Prwsia, Awstria, Switzerland, Ffrainc, Lloegr, Cymru, Scotland, a'r Iwerddon. Chwythau awelon Diwygiad trwy y gwahanol wledydd

uchod ar yr un amser. Yr oedd llaw Duw yn cael ei dinoethi yn amlwg iawn. Yr oedd preswylwyr yr Iwerddon erbyn hyn wedi hen fynwesu ac wedi mawr anwylu y gyfundrefn Babyddol, er i'r Arglwydd wneud pethau mawrion iddynt yn y bumed ganrif a'r canrifoedd dilynol; yr oeddent wedi eu dallu gan goel-grefydd. Rhyfedd mor annymunol yw gweled cenedl yn syrthio yn anocheladwy oddiar binacl anrhydeddus Diwygiad crefyddol, i ddyffryn oerllyd dirywiad. Gadawodd Duw y Gwyddelod i ymdrabaeddu mewn tywyllwch moesol am hir amser. a danfonodd amryfusedd cadarn iddynt, fel y credasant gelwyddau Pabyddiaeth yn rwydd am bedwar cant o flyneddau; gweddient ar, ac ymgryment o flaen, Mair forwyn—credent mewn adferiad o'r purdan—cyfaddefent eu pechodau i'r offeiriaid, ac yn y blaen. Yr oedd cyflwr moesol y wlad yn dra thruenus, o herwydd fod y gogoniant wedi ymadael er ys cymaint o amser—eisteddai y bobl yn mro a chysgod angau; ond yn nghanol barn fe gofiodd Duw drugaredd; ymwelodd âg Iwerddon mewn modd achubol, dihunodd y bobl o'u cysgadrwydd moesol, tynodd y lleni oddiar eu llygaid, gwelsant ddyfnder eu tylodi a mawredd eu trueni mor amlwg nes y tòrodd un yma, a'r llall acw, i waeddi yn bryderus, "*Beth a wnawn fel y byddom cadwedig?*" Blinasant ar dwyll y gyfundrefn Babyddol—sychedent am gyfundrefn well ac ysbrydol. Yr oedd y march gwyn yn myned allan gan orchfygu ac i orchfygu yn y pentrefydd, y trefydd, a'r siroedd. Golygfa gysurus iawn yw gweled Duw yn dyfod allan o'i fangre i achub eneidiau. Pan oedd y Pab yn ben yr Eglwys, yr oedd yr Eglwys Wyddelig yn llawn llygredd; cynyddai o un oes i'r llall, ac ychydig o galondid oedd i un gynyg ei leihau; ond pan ddaeth Harri VIII., yn ben yn lle Pab Rhufain, rhoddodd Rhagluniaeth gyfleusdra manteisiol iawn i'r rhai oedd yn ocheneidio o herwydd ffieidd-dra yr Eglwys, i fabwysiadu cynlluniau i'w phuro. Y mae gwir ddiwygiad yn cynyddu purdeb yn gystal a rhif yr eglwys. Yn union, dyma George Brown, brodor o Loegr, a mynach o urdd Augustine, yr hwn gafodd ei benodi yn Arch-esgob Dublin yn y flwyddyn 1535 O.C., yn dechreu mabwysiadu cynlluniau er mwyn puro yr

eglwys, yn ei Arch-esgobaeth. Gwelodd ei waith, a chododd yn benderfynol ato; ïe, efe a burodd yr eglwysi oddiwrth goel-grefydd yn ei hamryw ddulliau, a dynodd i lawr y delwau, a ddinystriodd relywiau, ac a ddiddymodd ffurfiau direswm ac eilun-addolgar, a thrwy yr awdurdod oedd ganddo yn Iwerddon, parodd i uwchafiaeth Harri VIII., gael ei addef gan y Gwyddelod. Dangosodd Harri yn fuan wedi hyny nad enw gwag oedd ei uwchafiaeth ef, o herwydd efe a alltudiodd y mynachod allan o'r deyrnas, attafaelodd eu cyllidiau, a dinystriodd eu Mynachlogydd. Gwnaethpwyd cynydd pellach yn niddymiad arferiadau Pabaidd coel-grefyddol, yn nheyrnasiad Edward VI., trwy ymdrechiadau diflino yr Arch-esgob Brown, ynghyd â'r anogaethau mawrion a roddai ef i bawb a ymdrechent yn achos pwysig y Diwygiad; ond ar ol hir dawelwch, chwythodd tymestl arswydus; bu marwolaeth Edward VI., ac esgyniad Mari waedlyd i'r orsedd, yn debyg o gyfnewid agweddiad pethau yn gyffelyb yn yr Iwerddon ag yn Lloegr; ond bwriadau y frenines a'i chyngorwyr a siomwyd mewn ffordd ryfedd iawn. Wedi i Mari ymddwyn yn greulon tuag at Brotestaniaid Lloegr, arwyddodd gommisiwn tua diwedd ei theyrnasiad, i ymddwyn yr un modd tuag at Brotestaniaid Iwerddon, ac i'r dyben o gyflawni y commisiwn gyda'r llymdoster mwyaf, enwodd un Dr. Cole yn un o'r dirprwywyr. Galwodd Dr. Cole yn Chester, wrth fyned tuag Iwerddon. Pan glywodd Maer y dref dyny, aeth i siarad â'r Dr. Yr oedd y ddau yn Eglwyswyr—yn adar o'r un lliw. Wrth ymddyddan â'r Maer, fe dynodd Dr. Cole flwch lledr allan o'i glud-gwd, daliodd hwnw o flaen llygaid y Maer, a dywedodd, "Dyma awdurdod a chwipia hereticiaid Iwerddon," gan feddwl y Protestaniaid. Yr oedd yn chwythu bygythion, ac yn mwynhau ei hun, druan, wrth feddwl am y difrod fuasai yn wneud ar bobl yr Arglwydd yn yr Ynys Werdd. Yr oedd Elizabeth Edmond, gwraig y tŷ, yn clywed y siarad—gwelodd y blwch lledr yn cael ei ddàl o flaen llygaid y Maer, a chlywodd Dr. Cole yn bygwth y Diwygwyr Gwyddelig; yr oedd hi yn Brotestant ei hunan, ac yr oedd ganddi frawd yn Brotestant, yn Dublin. Teimlodd yn ddwys

dros ei brawd naturiol, a'i brodyr crefyddol yn Iwerddon. Buasai yn dda gan ei chalon hi allu gwneud rhyw beth i'w gwaredu y tro hwnw o grafangau eu gelynion. Ymddangosai yn dra thywyll arni am dipyn; ond dacw y Maer yn ymadael â'r Doctor. Aeth y Doctor allan gydag ef; nid oedd wedi meddwl cau y blwch lledr cyn myned allan. Nid oedd yn meddwl ei fod mewn perygl o golli y commisiwn yno. Daliodd Elizabeth Edmonds ar yr adeg hòno i wneud ei rhan tuag at waredu diwygwygwyr Iwerddon. Aeth at y blwch; tynodd y commisiwn allan o hono, a gosododd sypyn o gardiau yn y blwch, mewn *sheet* o bapyr, yn ei lle. Dangosodd wroldeb mawr wrth wneud hyny. Pan ddaeth y Doctor yn ol, ni feddyliodd chwilio y blychau, i gael gweled a oedd y cwbl yno. Gadawodd Chester yn mhen ychydig oriau wedi hyny; croesodd y môr, a thiriodd yn Dublin ar y 7fed o Hydref, 1558 O. C. Wedi tirio, aeth i'r Castell i aros; wedi myned yno, daeth cenad ato oddiwrth yr Arglwydd-ddirprwywr Fitz-Walter, yn ceisio ganddo ymddangos yn ddioed o flaen y dirgel-gynghor. Aeth yntau, wrth rheswm yn ŵraidd; ymddangosodd o flaen y cynghor; dywedodd ei neges yn eofn, mewn araeth chwyddedig. Yna, cyflwynodd y blwch i'r Arglwydd-ddirprwywr Fitz-Walter, yr hwn, wedi peri ei agoryd, fel y gallai yr ysgrifenydd ddarllen y commisiwn, a gafodd nad oedd ynddo ond sypyn o gardiau, a dihiryn y pastynau yn uchaf. Brawychwydn id yn unig yr Arglwydd-ddirprwywr a'r cynghor, trwy yr amgylchiad, ond hefyd y Doctor, yr hwn a sicrhaodd iddynt fod ganddo gommisiwn pan gychwynodd o gartref, er nas gwyddai beth oedd wedi dygwydd iddo. Yna, dywedodd yr Arglwydd-ddirprwywr, "Bydded i ni gael commisiwn newydd, ac hyd nes y caffom ef, nyni a chwareuwn y cardiau." Y Doctor yn lled derfysglyd ei feddwl, a ddychwelodd i Loegr, ac wedi dyfod i'r llŷs, a gafodd gommisiwn newydd. Nid oedd amheuaeth yn ei feddwl ef, na'i frodyr yn Lloegr a'r Iwerddon, pa un fuasai yr ail gommisiwn yn cael ei gosod mewn gweithrediad neu beidio; ond yr oedd gan Dduw ffordd i ddiddymu yr ail mor rhwydd a'r cyntaf. Aeth y Doctor i Gaergybi yn dra phenderfynol fel o'r blaen. Erbyn

myned yno, yr oedd y gwynt yn ei erbyn, a'r môr lawer yn rhy arw iddo gychwyn. Dysgwyliai yn bryderus am lawer o oriau am i'r gwynt dawelu a'r môr lonyddu; erbyn ei fod yn barod i gychwyn—y gwynt a'r môr yn ffafriol, cyrhaeddodd y newydd annymunol i'w glustiau fod Mari waedlyd—cigyddes ddidrugaredd y diwygwyr, wedi *marw*. Dyma holl amcanion y Doctor ar ben. Pe buasai yn myned i Iwerddon, ni allasai osod y commisiwn mewn grym; nid oedd ganddo ddim i wneud ond dychwelyd adreu yn siomedig, heb gyffwrdd â diwygwyr Iwerddon. Druan o Mari waedlyd; os cafodd hi golled ei hun, cafodd cymdeithas enill mawr ar ddydd ei mharwolaeth. Y mae y byd yn meddwl gydag ing am ei theyrnasiad hyd y dydd heddyw. Ymdrechodd â'i holl egni i ladd y Diwygiad Protestanaidd. Cafodd y frenines Elizabeth gymaint o ddifyrwch wrth glywed Arglwydd Fitz-Walter, ar ei ddychweliad i Loegr, yn adrodd yr hanes am Elizabeth Edmond, yn Chester, fel yr anfonodd am dani yn ddioed, ac y rhoddodd £40 y flwyddyn o wobr-gyflog iddi dros ei bywyd.

Y mae yr hanesyn uchod yn dangos fod y Diwygiad Gwyddelig o Dduw, a'i fod ef yn penderfynu diogelu bywydau y diwygwyr er gwaethaf dynion. Gwelir effeithiau y Diwygiad mawr hwn yn dyfod i'r golwg yn ngwroldeb y bobl oedd wedi teimlo ei ddylanwad—yn eu hymlyniad diysgog wrth eu hegwyddorion—gwadent uwchafiaeth, ac awdurdod y Pab—ni weddient ar Mair Forwyn yn awr fel cynt—ni chyfaddefent eu pechodau i'r offeiriaid—ni addolent ddelwau, ni chredent mewn purdan—ni weddient am waredigaeth un enaid o hono. Yr oedd cyfnewidiad wedi cymeryd lle yn eu barn, yn eu teimlad, yn eu penderfyniad, yn eu hegwyddorion, yn eu hymddyddanion, ac yn eu hymddygiadau. Yr oeddent wedi eu cyfnewid yn fewnol ac allanol. Yr oedd y Diwygiad yn gwneud ei ôl yn mhob man, fel tân yn llosgi, neu ddwfr yn glanhau. Yr oedd y lles oedd yn wneud yn dyfod i'r golwg yn y cylch teuluaidd, yn y cylch masnachol, ac yn y cylch eglwysig. Gellir galw y Diwygiad mawr hwn yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn Ddiwygiad oddiwrth Babyddiaeth.

# PENNOD III.

## DIWYGIAD CREFYDDOL YR AIL GANRIF AR BYMTHEG.

YR oedd awyrgylch foesol Iwerddon yn lled afiach yn y ganrif yma. Er fod torf yn ofni Duw, ac yn cilio oddiwrth ddrygioni, yr oedd y lluaws yn gwneuthur drwg—yn carlamu yn anystyriol tua thrueni. Yr oedd pechodau y byd wedi ymwthio i'r eglwysi. Ychydig o'u hamser oedd y bobl yn gysegru at wasanaeth crefydd—lleihäai pryder moesol yr eglwysi yn nghylch cyflyrau damniol y gwrandawyr—adenillai y gyfundrefn Babyddol y tir a gollodd yn y ganrif o'r blaen, i raddau—ymfalchiai y diafol wrth weled ei deyrnas yn llwyddo cymaint: braidd na ddywedasai mai efe fuasai yn ben ar y genedl Wyddelig yn fuan. Ond yn ddisymwth dacw fraich yr Arglwydd yn deffroi—dacw fe yn ymweled â'r Gwyddelod yn ei ras anghymharol. Dangosai ei fod yn meddwl cyfnewid arweddiad foesol y wlad trwy dywallt ei Ysbryd ar y preswylwyr, er mawr siomedigaeth i'r Pabyddion a'r diafol. Cododd ddynion cymhwys mewn barn, teimlad, profiad, egwyddorion, amcanion, penderfyniadau, a chalonau, i gynhyrfu y bobl i feddwl am eu diwedd. Gwisgodd hwynt â nerth o'r uchelder—bedyddiodd hwynt â'r Ysbryd Glân. Elent allan o'u mhyfyrgelloedd i blith dynion yn llawn o frwdfrydedd ysbrydol. Eu henwau oeddent,—Bedell, Blaire, Livingstone, &c. Gwnaeth Bedell ei oreu i gael diwygiad yn y pethau canlynol:—

1. Yn ymarferiadau crefyddol Trinity College Dublin. Pan gafodd Bedell wahoddiad i ddod yn Athraw yn yr Athrofa bwysig uchod, meddyliodd mai ei ddyledswydd oedd cydsynio yn ddioed. Hyny a wnaeth yn ddibetrus ar ol meddwl am fanteision ac anfanteision y swydd. Symudodd o Loegr i Dublin yn y fl. 1627 O. C. Yn y flwyddyn hòno felly y tòrodd gwawr Diwygiad adnewyddol yn mhlith y Gwyddelod. Wedi iddo eistedd yn y gadair Athrawol, teimlodd nad oedd amser i golli—yr oedd ei galon yn llosgi eisiau gweled crefydd yn uwch yn yr Athrofa. Dechreuodd ei waith yn wrol, fel un yn gweled yr Anweledig. Yr oedd golwg brydferth ar yr Athrofa cyn pen ychydig amser trwy ei offerynoliaeth,

dan fendith Duw. Awyddai weled y myfyrwyr yn ddynion dysgedig; ond wrth ymestyn at hyny cofiai mai cymhwysder goreu gweinidogion i wneud daioni yn wastad oedd, ac yw, duwioldeb. Melldith y byd a'r eglwys yw cael gweinidogion dysgedig heb wir dduwioldeb —cael gweinidogion a phenau goleu, a chalonau tywyll. Ymdrechai Bedell grefyddoli calonau y myfyrwyr heblaw diwyllio eu deall. Diffyg mawr yr Athrofa hon yn Dublin trwy y blyneddau blaenorol oedd codi dynion ieuainc yn ddysgedig, heb fod yn dduwiol. Ond yn awr dyma Ddiwygiwr trwyadl yn gwneud y diffyg hwnw fyny yn nghymhorth Duw trwy hyfforddiadau crefyddol parhaus yn yr wythnos, ac ar y Saboth. Wedi i Bedell lanw y swydd Athrawol yn Athrofa Dublin am ddwy flynedd yn dra llwyddianus, cafodd ei wneud yn Esgob Kilmore, ac Ardagh—dwy esgobaeth unedig. Yr oedd ei lygaid yn agored yn ei gylch newydd wedy'n. Edrychai oddiamgylch iddo yn graffus. Mewn canlyniad gwelodd lawer o arwyddion dirywiad yn mhlith yr offeiriaid. Felly gwnaeth ei oreu.

2. I ddiwygio cylchoedd bugeiliol yr offeiriaid. Dyma yr ail gam yn ei yrfa ddiwygiadol yn Iwerddon. Yr oedd yn gweled fod cylchoedd yr offeiriaid lawer yn rhy ëang iddynt allu gwneud cyfiawnder â phobl eu gofal. Yr oedd esgobaethau mawrion yn cael eu cysylltu â'u gilydd yn barhaus; felly nis gallasai yr offeiriaid dalu y sylw dyladwy i gyflyrau moesol y bobl. Cynygodd Bedell ddadgysylltu yr esgobaethau unedig fel y buasai llai o gylch gan bob offeiriad, a gwell mantais gan y bobl mewn canlyniad, i gael hyfforddiadau crefyddol. Yr oedd cylch Bedell ei hun yn cael ei wneud i fynu o ddwy esgobaeth unedig; ac er nad oedd yr ardreth flyneddol a dderbyniai oddiwrth y ddwy ond cyflog resymol iddo am ei lafur, eto, penderfynodd roddi un fyny er mwyn siampl i ereill. Ni fuasai un grym ganddo i ddweyd wrth ereill am roddi rhan o'u hesgobaethau fyny heb iddo wneud hyny ei hun yn gyntaf; fel na fuasai rhwystr o'i du ef, rhoddodd esgobaeth Ardagh fyny i Dr. Richardson. Cafodd hyn gymaint o ddylanwad ar yr offeiriaid fel y gwnaethant hwythau oll yr un pethau. O hyn allan yr oedd cylchoedd bugeiliol yr

offeiriaid llai, ac felly rhoddent fwy o hyfforddiadau crefyddol i bobl eu gofal.

3. Gwnaeth Bedell ei oreu i ddarbwyllo yr offeiriaid i fyw yn eu plwyfi eu hunain. Dyma y trydydd cam yn ei yrfa ddiwygiadol yn mhlith y Gwyddelod. Gorchwyl anhawdd oedd argyhoeddi yr offeiriaid, y dylasent fyw yn eu plwyfi eu hunain, o herwydd yr oeddent wedi arfer byw tu allan i'w plwyfi eu hunain trwy gydol y blynyddau, ac yr oedd y brenin Iago wedi rhoddi y *Glebe Lands* iddynt i adeiladu tai arnynt. Ond er yr holl anhawsderau oedd ar ffordd Bedell i gael Diwygiad yn hyn, cyrhaeddodd ei amcan heb niweidio amgylchiadau yr offeiriaid. Cytunwyd â'r amodau boddhaol a manteisiol iddo ef a hwythau. Gellir gwneud pethau mawrion iawn wrth fod yn bwyllog, doeth, a phenderfynol.

4. Gan fod dadgysylltiad yr esgobaethau unedig wedi achlysuro cynifer o gylchoedd gweigion, a bod eisiau cynifer o offeiriaid newyddion, teimlodd Bedell ei bod o'r pwys mwyaf i rwystro dynion drwg i fyned i'r cylchoedd hyny. Dyma y pedwerydd cam yn ei yrfa ddiwygiadol. Nid oedd digon o ofal yn arferol o gael ei dalu i gymhwysderau gwybodaethol, cymeriadol, a chrefyddol dynion ieuainc wrth eu hurddo yr amser hwnw. Felly, ymwthiodd llawer o ddynion anghymhwys ac annheilwng i'r offeiriadaeth—pa rai oedd yn felldith yn y cymydogaethau lle y trigent. Ond ymdrechodd Bedell yn gydwybodol i ddod o hyd i wybodaeth a chymeriadau moesol y rhai oedd yn urddo trwy holiadau a thystiolaethau, fel na buasai yn euog o urddo dynion annuwiol. Dangosodd y pryder mwyaf yn nghylch y cylchoedd gweigion, a gwnaeth ei oreu i benodi dynion gwybodus, talentog, dysgedig, a duwiol.

5. Galwodd sylw yr offeiriaid oll at frodorion Iwerddon. Dyma y pumed cam yn ngyrfa ddiwygiadol Bedell. Yr oedd ymddygiad yr offeiriaid Seisnig tuag at y Gwyddelod, yn dryllio teimladau Bedell yn fawr. Gadawent hwynt yn dra disylw—meddylient yn isel am danynt. Braidd y cyfaddefent eu bod yn wrthrychau eu gofal. Teimlodd Bedell yn ofidus o herwydd y balchder a'r difaterwch hwn, gan y gwyddai fod gan y Gwyddelod eneidiau anfarwol fel ereill. Nid oedd ganddynt Fibl

yn eu hiaith eu hunain ychwaith. Teimlodd Bedell gymaint drostynt fel nad hir y buont cyn cael y Llyfr Gweddi Cyffredin, a'r Testament Newydd mewn iaith y gallasent eu darllen a'u deall trwy ymroad. Meddyliodd roddi yr holl Fibl yn nwylaw y Gwyddelod cyn marw; ond methodd gyrhaedd yr amcan hwnw, o herwydd cadwodd Rhagluniaeth y gwaith anrhydeddus hwnw i ŵr haelfrydig arall o'r enw Boyde.

Gwelodd Bedell lwyddiant mawr iawn trwy gydol ei yrfa yn y byd yma. Llwyddodd i gynyrchu llawer o gyfnewidiadau cymdeithasol ac eglwysig er gwell mewn ychydig amser. Yr oedd wedi llwyddo i godi crefydd yn uwch yn Athrofa Dublin nag y bu er ys blyneddau meithion—i roddi mwy o fanteision crefyddol i ddynion yn y cylchoedd offeiriadol trwy gyfyngu y cylchoedd hyny, a darbwyllo yr offeiriaid i fyw yn mhlith pobl eu gofal, a thrwy fod yn fanwl wrth benodi dynion ieuainc i droi yn y cylchoedd hyny. Lle mae gwir Ddiwygiad mae yn sicr o ddangos ei hun; felly y Diwygiad gogoneddus hwn, cynyrchodd effeithiau gwiwglodus. Dyna arweddiadau y Diwygiad hwn trwy offerynoliaeth Bedell. Yn mhen ychydig ar ol hyn cododd erlidigaeth arswydus yn Iwerddon. Felly cwrddodd Bedell â llawer o ofidiau cyn myned i mewn i deyrnas Dduw.

Yn nghylch yr un amser ag oedd Bedell yn llafurio yn llwyddianus yn Dublin, Ardagh, a Kilmore, yr oedd Blair, Livingstone, Cuningham, Hamilton, Ridge, Calvert, Dunbar, Welch, a Stewart, yn llafurio yn ddiflino yn swyddi Antrim, a Down. Rhyfedd fel y cynhyrfai y ffyddloniaid uchod y bobl i ystyried b'le yr oeddent yn sefyll mewn ystyr foesol. Wrth edrych ar agwedd grefyddol y swyddi a nodwyd cyn i'r Diwygiad Crefyddol dòri allan, ac wedi iddo dòri allan, y mae yn hawdd canfod mawredd a natur y cyfnewidiad. Yr oedd yr hen bethau yn cael eu troi o'r neilldu, a phethau newyddion, hollol gydweddol ag urddasolrwydd crefydd, yn cael eu mhabwysiadu yn eu lle. Gwelir effeithiau y Diwygiad Crefyddol yn y swyddi gogleddol o'r Ynys Werdd yn—

1. Yn ngweithgarwch yr eglwysi. Yr oedd yr eglwysi wedi ymysgwyd o'r llwch, ac wedi gwisgo gwisg-

oedd eu gogoniant. Yr oedd bywiawgrwydd yn ddadblygedig yn mywydau yr aelodau yn awr. Hoffent dŷ Dduw, lle preswylfod ei ogoniant; ni arosent gartref pan y gallasent, ac y dylasent fod yn nghysegr yr Arglwydd. Teithient yn gyffredin ddeugain milltir o ffordd i gynulliadau crefyddol. Deuent i'r cyfarfodydd pregethu o bell ffordd borau dydd Sadwrn—cysegrent nos Sadwrn i ymbarotoi, trwy ymddyddanion a gweddiau erbyn y Saboth. Cyrchent i'r cysegr ar y Saboth, a mwynhaent foddion gras trwy y dydd. Treulient nos Saboth eilwaith mewn mawl a gweddi—elent yn fywiog i'r cyfarfodydd dydd Llun wedi hyny—gwrandawent y Gair heb deimlo yn gysglyd, ac elent adreu nos Lun ar ol gweled a theimlo gras Duw o forau dydd Sadwrn hyd y pryd hwnw. Dyma effaith ogoneddus: eglwysi cyfain yn weithgar a bywiog ar ol bod yn ddiog a marwaidd am flyneddau. Yr Arglwydd wnaeth y peth mawr hwn, trwy hyny priodol iawn llawenhau.

2. Yn mrawdgarwch yr eglwysi. Yr oedd eiddigedd a chenfigen wedi eu taflu allan o'r meddwl, a chariad wedi cymeryd meddiant o'r awenau yn eu lle. Carai y gweinidogion eu gilydd. Y mae y nosweithiau dreuliasant gyda'u gilydd mewn mawl a gweddi yn profi nad oeddent yn meddwl yn gul am eu gilydd: carent eu gilydd o galon bur yn helaeth. Yr oedd brawdgarwch yn hanfodi rhwng y gweinidogion a'r eglwysi hefyd, ynghyd a'r eglwysi a'r gweinidogion. Yr oeddent wedi eu dysgu gan Dduw i garu eu gilydd. Y mae gwir ddiwygiad yn uno gweinidogion, teuluoedd, eglwysi, enwadau, a chenedloedd â'u gilydd yn nghwlwm anrhydeddus tangnefedd.

3. Yn nghydweithrediad yr eglwysi. Yr oedd yr eglwysi yn cyd-dynu, cyd-ymosodent ar amddiffynfeydd y diafol. Nid oedd un eglwys yn tynu lawr y peth oedd y llall wedi ac yn godi fynu. Gweithient, cydweithient â'u gilydd, ac â Duw. Yr oedd ganddynt galon i weithio yn yr un winllan. Enillai eglwysi unol fuddugoliaethau anrhydeddus ar y byd, y cnawd, a'r diafol. Y mae gwir ddiwygiad yn dysgu eglwysi i ddefnyddio eu nherth moesol i daro yn erbyn pechod, ac nid i daro yn erbyn eu gilydd.

4. Yn ngwroldeb yr eglwysi. Awn a meddianwn y

wlad oedd eu harwydd-air er cymaint oedd y gwrthwynebiadau gawsent, a'r anhawsderau fuasai ar eu ffordd i gyrhaedd eu hamcan. Yr oedd y gelynion yn gwneud eu goreu i rwystro y Diwygiad ledu; er hyny, gwasgaru oedd y tân—yn mlaen oedd yr eglwysi yn myned. Ymdrechodd yr Esgob Elkin i ladd y Diwygiad gymaint ag y gallai, trwy ddiswyddo y diwygwyr; ond druan, cafodd ei wobr yn y byd yma am ei drafferth. Ymwelodd Duw ag ef mewn modd ad-daledigol cyn iddo ymadael â'r byd hwn. Cafodd ei daro yn fud yn ddisymwth iawn, a bu felly am ddyddiau. Gofynodd Dr. Maxwell iddo wedi iddo ddod yn alluog i siarad peth, beth oedd arno? Dywedodd o'r diwedd gan grynu, "*It is my conscience, man.*" O, meddai y meddyg, "*I have no cure for that.*" Yr oedd yr esgob yn cael ei ddychrynu gan ei gydwybod ei hun yn ei oriau diweddaf o herwydd cynyg sefyll ar ffordd Duw i ddiwygio Gogledd Iwerddon yn ei amser ei hun. Y mae effeithiau y Diwygiad yn y ran Ogleddol o'r Ynys Werdd, yn dangos fod llaw gan Dduw ynddo. Effeithiau dymunol oll: gweithgarwch, brawdgarwch, cydweithrediad, a gwroldeb. Y mae pob un o honynt yn deilwng o Dduw, ac yn ogoniant iddo. Cofied y darllenydd mai dynion mawr mewn gweddi oedd y dynion gynhyrfodd Iwerddon yn y ganrif hon. Treulient ddyddiau a nosweithiau lawer mewn gweddiau ac ymbiliau. Os ydym ninau am wneud rhyw beth gwerth son am dano ar ol i ni farw, rhaid i ni weddio llawer. Rhaid i ni ymdrechu gyda Duw nes cael y fendith, fel Jacob. Gellir galw y Diwygiad Crefyddol yn y ganrif hon yn Ddiwygiad oddiwrth Lygredd Esgobyddol a Phabyddiaeth.

## PENNOD IV.

### DIWYGIAD CREFYDDOL Y DDEUNAWFED GANRIF.

Y MAE blyneddau lawer wedi myned heibio bellach er y cynhyrfiadau gwresog gymerodd le yn Iwerddon trwy offerynoliaeth Blair, Livingstone, ac ereill. Ar ol hyny gwelwyd agwedd arall ar wyneb cymdeithas. Ymadawodd mwyrif yr eglwys â'u cariad cyntaf. Gostegodd yr

awel nerthol, a chollodd y fflam ddiwygiadol ei hang-erddolrwydd cyntefig. Gwelwyd fod llawer yn aelodau yn yr eglwysi ag y buasai yn eithaf priodol dweyd wrthynt yn ddidderbyn-wyneb, "Mi a adwaen dy weithredoedd di, oblegid y mae genyt enw dy fod yn fyw, a marw ydwyt. Gwelwyd fod llawer o'r hadau hauwyd gynt wedi syrthio ar fin y ffordd, ar dir creig-aidd, ac yn mhlith y drain; ac felly enillodd anystyr-iaeth, coelgrefydd, ac anffyddiaeth, ddylanwad mawr ar feddyliau y bobl. Ychydig o'r elfen ysbrydol oedd yn ddadblygedig yn ysgogiadau yr eglwysi pan aeth Wes-ley a Whitfield i'r Iwerddon. Ond wedi i'r ddau wron uchod gael eu hanfon a'u harwain gan Dduw yno, cy-merodd cyfnewidiad anogaethol le yn fuan; nid hir y bu'r llŷn heb gael ei gynhyrfu; nid hir y bu'r tân cyn cyneu, a'r anadl heb chwythu oddiwrth y pedwar gwynt, ar laddedigion yr ynys. Yn awr clywir gweddiau yn lle rhegfeydd a chableddau. Yn awr perchir y Saboth gan y dynion oedd yn ben-campwyr ar ei halogi gynt. Yn awr gwelir bywiawgrwydd lle yr oedd difaterwch gynt. Yn awr gwelir santeiddrwydd yn blaguro lle yr oedd pechod yn gwreiddio, yn tyfu, ac yn ymganghenu gynt. Yn awr yr oedd Diwygiad yn teyrnasu lle yr oedd di-rywiad gynt. Y mae'r meddwl yn rhedeg gyda syndod a diolchgarwch at y pethau canlynol—y pethau oedd yn ddadblygedig yn amser y cynhyrfiad crefyddol hwn.

1. At fawredd groesawiad, a gwresogrwydd derbyn-iad y dosbarth diwygiadol, megys Whitfield, Wesley, ac ereill. Yr oeddent yn cael llawer mwy o roesaw na'u dysgwyliad mewn gwlad ac oes mor dywell a choel-grefyddol. Ymddangosai y bobl fel pe buasai eu mhe-ddyliau wedi cael eu parotoi trwy ddylanwadau goruwch naturiol i dderbyn cenadau Arglwydd y lluoedd, neu y diwygwyr. Gwir, fe ddangosodd rhai angharedigrwydd iddynt yn mhoethder eu sêl dros gyfeiliornad, ac mewn anwybodaeth. Ymgynghreiriodd rhai Pabyddion, a rhai Protestaniaid yn eu herbyn. Defnyddiasant eu holl ddoethineb a'u dylanwad i ddarbwyllo y bobl gyff-redin i beidio gwrando ar y diwygwyr yn pregethu, na chredu eu hathrawiaethau teilwng. Ond ag ystyried bychandra gwybodaeth, a theimlad crefyddol y bobl yr

amser hwnw, mae yn syndod iddynt gael mor lleied o angharedigrwydd oddiar eu llaw. Cawsant garedigrwydd mawr, a derbyniad hynod roesawgar, ac ystyried sefyllfa foesol y Gwyddelod. Yr oedd y cenadau yn cael profion fod y ffordd yn cael ei pharotoi iddynt gan ryw Fôd anweledig. Mor drugarog y mae Duw pan yn parotoi meddyliau gwrandawyr anwybodus, coelgrefyddol, ac anffyddol i dderbyn ei weision heb ddangos anmharch iddynt. Y mae mawredd y groesaw gafodd pleidwyr y Diwygiad yn Iwerddon yr amser yma, yn dangos fod cyfnewidiad er gwell wedi cymeryd lle yn meddyliau y bobl.

2. At boblogrwydd y cyfarfodydd diwygiadol. Nid yn unig yr oedd derbyniad gwresog yn cael ei roddi i bersonau y diwygwyr, ond yr oedd awydd yn y bobl i'w clywed yn pregethu. Sychedent am glywed Gair Duw yn cael ei egluro iddynt. Yr oedd yn hawdd cael cyfarfodydd yn yr amser mwyaf anfanteisiol o'r dydd y pryd hwn; a'r amser bynag y buasent yn cael eu cynal yr oeddent yn lluosog. Pregethai Mr. Wesley am 5 o'r gloch y borau. Yr oedd hyny yn newydd-beth i'r Gwyddelod. Trwy hyny ofnai Wesley weithiau y buasai y cyfarfod yn anmhoblogaidd—mai ychydig fuasai yn dyfod i'w wrando; ond yr oedd fynychaf yn cael ei siomi ar yr ochr oreu. Yr oedd rhai yn dweyd wrtho am beidio bod yn ffol i gynal gwasanaeth crefyddol mor fore mewn rhai manau, o herwydd na allasai y bobl godi o'u gwelyau yn brydlon. Er hyny, ni ddigalonai Mr. Wesley i roddi y gwasanaeth fynu; a da y gwnaeth ddyfalbarhau, o herwydd yr oedd y bobl yn foddlon colli eu cysgu er mwyn myned yn brydlon i'r gwasanaeth. Meddylient fod manteision y gwasanaeth yn gorbwyso eu nanfanteision. Yr oedd enill y bobl yn llawer mwy na'u colled.

Yr oedd y cyfarfodydd pregethu yn cael eu cynal yn yr awyr agored yn aml iawn, a hyny o herwydd lluosogrwydd y gwrandawyr; yr oedd yr eglwysi yn rhy fychain i gynwys cynifer. Rheswm arall dros gynal y gwasanaeth yn yr awyr agored, oedd, y gwaharddiad Pabyddol. Yr oedd yr offeiriaid wedi gwahardd y bobl i fyned i wrando y diwygwyr, i un eglwys yn enwedig; nid oeddent yn meddwl y buasai un gwasanaeth yn cael ei

gynal yn yr awyr agored, wrth roddi y fath waharddiad. Yr oedd llawer o wrandawyr y Pabyddion yn benderfynol nad elsent ar ol y diwygwyr i'r eglwysi, er yr elsent i'w gwrando yn yr awyr agored, heb fawr petrusder. Felly, meddyliodd y diwygwyr am natur y gwaharddiad Pabyddol, ynghyd â choelgrefydd y bobl, a chadwasant gyfarfodydd pregethu mewn dull na fuasai ganddynt hwy un gwrthwynebiad ddyfod iddynt. Yr oedd Duw yn agor llygaid ei bobl i weled sefyllfa y gwrandawyr, ac i ddarganfod y cynllun mwyaf tebygol o'u denu ar eu hol. Y mae dynion Duw yn gweithredu yn yr iawn gyfeiriad bob amser pan dan arweiniad Dwyfol. Golwg brydferth oedd gweled torfeydd mor lluosog yn cyrchu i'r cyfarfodydd, i gael clywed Gair Duw yn cael ei egluro, ar ol bod yn diogi trwy eu hoes. Y mae poblogrwydd y cyfarfodydd diwygiadol yn awr yn dangos fod cyfnewidiad moesol er gwell wedi cymeryd lle yn marn, teimlad, ac ymddygiad y werin.

3. At ddwysder teimladau crefyddol y bobl yn y cyfarfodydd diwygiadol. Nid yn unig meddylient yn uchel am y diwygwyr, ac y rhoddent bresenoldeb eu cyrff yn y cyfarfodydd diwygiadol, ond teimlent yn ddwys dan y pregethau. Yr oedd profion yn cael eu rhoddi yn y cynulliadau, fod y deall, y teimlad, y gydwybod, a'r galon, yn cael eu cyffwrdd, ac nad oedd llafur y diwygwyr yn ofer. Yr oedd testynau, pynciau, sylwadau, a ffeithiau y weinidogaeth yn tueddu yn uniongyrchol, gyda bendith Duw, i gynyrchu teimlad dwys, dwfn, grymus, a pharhaus yn meddyliau y gwrandawyr. Tuedd y weinidogaeth oedd d'od â dynion i ystyried eu diwedd, ac i ddwyn eu calon i ddoethineb, a thrwy fod Ysbryd Duw yn cydweithio â'r weinidogaeth, yr oedd y gwrandawyr yn teimlo cymaint nes ocheneidio, llewygu, wylo, gwaeddi, a syrthio lawr. Fflangellai eu cydwybodau hwynt yn drwm o herwydd eu pechodau; edrychent ar eu cymeriadau yn ngoleu tragwyddoldeb, a chyhwfanai cyfiawnder ei gleddyf, gan fygwth o flaen eu llygaid nes eu dychrynu—nis gallasent guddio eu teimladau yn hwy. Pan ddengys dynion annuwiol eu teimladau, gellir penderfynu ei bod yn galed iawn arnynt y pryd hwnw. Rhyfedd mor wahanol elai dynion

adreu o'r cyfarfodydd i'r hyn oeddent pan yn myned iddynt. O! mor ddymunol gweled torf o ddynion calon galed yn teimlo dan y weinidogaeth—yn teimlo yn alarus o herwydd eu pechodau, ac yn llawen o herwydd trugaredd. Yr oedd arddangosiad o deimlad yn y weinidogaeth yn foddion i gynyrchu teimlad yn y gwrandawyr, ac yr oedd arddangosiad o deimlad yn y gwrandawyr yn foddion i ddyfnhau a grymuso teimlad y weinidogaeth. Mor gysurus a diolchgar y teimlai Whitfield a Wesley yn, ac ar ol, myned o'r cyfarfodydd, wrth feddwl fod Ysbryd Duw yn cario y gwirioneddau oedd yn y pregethau i galonau y bobl; yr oedd yn foddion cysur ac yn destyn diolch teilwng yn sicr. Yr oedd dwysder teimladau crefyddol y bobl yn y cyfarfodydd diwygiadol yn dangos fod cyfnewidiad er gwell wedi cymeryd lle yn eu mheddyliau.

4. At blaniad eglwysi newyddion yn ol egwyddorion diwygiadol. Bu Wesley yn offerynol i blanu eglwysi newyddion mewn gwahanol swyddi yn Leinster, Munster, a Connaught, ac wrth wneud hyny, rhoddodd fanteision anmhrisiadwy i'r preswylwyr. Man yw eglwys i ddynion gwrdd â Duw, a Duw gwrdd â dynion—pabell y cyfarfod—tŷ i Dduw, a phorth i'r nefoedd; felly, beth all fod yn gymaint o fantais i ardal, ac yn fwy o addurn i wlad? Nid oes dim mor fanteisiol ac anrhydeddus. Dyma yr adeg y dygwyd y gyfundrefn Wesleyaidd i sylw y Gwyddelod, ac er hyny hyd yn awr, y mae'r enwad hwn wedi ffynu yn yr ynys.

5. At dynged cyfeiliornadau yn amser y Diwygiad. Yr oedd y Pabyddion yn ymwrthod âg egwyddorion coelgrefyddol y Pab, gan ddewis egwyddorion gogoneddus a manteisiol Crist yn eu lle. Pan glywodd yr offeiriaid son am y Diwygiad, dechreuasant grynu, o herwydd ragwelent rai o'u dysgyblion yn eu gadael. Yr oeddent am wneud eu gorau i'w rhwystro, er hyny. Gwaharddent y bobl i fyned i'r cyfarfodydd diwygiadol, a bygythient hwynt os elent yn groes i ewyllys eu blaenoriaid. Ond ni chymerai y bobl eu rhwystro gan waharddiadau, na bygythion, na llwgr-wobrwyon. Rhoddent eu presenoldeb yn y cyfarfodydd diwygiadol, ac yno yr oedd Duw yn dangos iddynt wendid, hagrwch, a

niweidiau cyfeiliornad, ynghyd â chryfder a gogoniant gwirionedd yn y cyfarfodydd hyny; felly, elent adreu yn benderfynol i droi dalen newydd—i ymwrthod â chyfeiliornad, ac i bleidio gwirionedd gweddill eu hoes. Y mae gwir Ddiwygiad yn dangos yr hyn sydd deilwng ac annheilwng, yn eglur i bob un fyddo am weled hyny. Cafodd Wesley a Whitfield dderbyniad croesawgar gan y Gwyddelod; derbyniasant hwynt i'w tai; aethant i'w gwrando yn pregethu; teimlasant dan eu gweinidogaeth; crédasant eu hegwyddorion; ymffurfiasant yn eglwysi trwy eu hofferynoliaeth, a gwelsant wendid cyfeiliornad a nerth gwirionedd gymaint fel y penderfynasant wrthod y naill a glynu wrth y llall: "O'r Arglwydd y daeth hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni." Gellir galw y Diwygiad hwn yn Ddiwygiad oddiwrth Esgobyddiaeth lygredig a Phabyddiaeth.

## PEN. V.

### DIWYGIAD CREFYDDOL RHYFEDDOL Y FLWYDDYN 1859., O.C.

Y MAE Diwygiad mawr y flwyddyn yma yn hynotach nag un Diwygiad arall, mewn llawer ystyr, ag y mae genym hanes am dano yn Iwerddon. Y mae ei ddadguddiadau, a'i ddirgeledigaethau yn dra lluosog a rhyfedd. Yr ydym yn myned yn fud wrth feddwl am y naill, ac yn llawenhau yn ddiolchgar wrth feddwl am y llall. Dechreuodd y Diwygiad hwn dòri allan tua'r un amser a'r Diwygiad Americanaidd. Dechreuodd Duw wlawio gwlaw graslawn ar ei etifeddiaeth yn y ddwy wlad bron yr un pryd. Tòrodd allan mewn atebiad i weddiau ychydig ffyddloniaid yn y naill a'r llall; ffurfiwyd cyfarfod newydd mewn ysgoldy bychan yn agos i Connor, swydd Antrim, o'r enw "Cyfarfod Cymdeithas y Credinwyr," tua Medi, 1857, O. C. Nid oedd ychwaneg na phedwar o ddynion ieuainc yn ymgyfamodi ar ei gychwyniad i'w gynal. Amcan gwiw-glodus y cyfarfod, oedd, gweddio ar Dduw i fendithio pregethiad yr efengyl yn Connor, ynghyd â'u hymdrechiadau hwy ac ereill o blaid y cyfarfodydd gweddio a'r Ysgolion Sabothol trwy yr holl gylch. Nid

hir y bu y cyfarfod yn gyfyngedig i ychydig; aeth y son allan am ei ffurfiad, ei amcan, a'i effeithiau, a daeth llawer ynghyd. Bu rhaid i'w bleidwyr rodio wrth ffydd, ac nid wrth olwg, am beth amser; er hyny, ni ddigalonent—parhaent i weddio am dywalltiad yr Ysbryd Glân yn ddiflino, gan gwbl gredu na fuasai eu llafur caled a chydwybodol yn ofer yn yr Arglwydd. Y mae dynion yn cael pethau mawrion gan Dduw wrth ymdrechu yn ddiflino fel Jacob. Credai y bardd hyn,—

"Mae gweddi'r ffydd fel allwedd gref,
Yn dadgloi cloion nef y nef;
Aiff fry i'r nef i glustiau Duw,
Daw â bendithion o bob rhyw."

Hefyd,—

"Ni fethodd gweddi daer erioed
A chyrhaedd hyd y nef;
Mewn cyfyngderau, fy enaid rhed
Yn union ato Ef,"

Ar ol bod yn ffyddlon o blaid y cyfarfod, heb un argoel y buasai amcan ei ffurfiad yn cael ei gyrhaedd am dalm o amser, yn ddisymwth fe dòrodd y wawr, ac fe ymddangosodd y seren ddydd yn ddysglaer iawn. Clywai y gweddiwyr sŵn yn mrig y morwydd, a thrwst awel yn dyfod o draw yn nes atynt. Mawr oedd eu llawenydd wrth feddwl fod eu gweddiau dirgelaidd a chyhoeddus trwy gydol y tri mis oedd wedi myned heibio, yn cael eu gwrando gan Dduw. Yn mis Rhagfyr, 1857, y daeth y fflam ddiwygiadol yn weladwy. Argyhoeddwyd a dychwelwyd dyn ieuanc o fewn y mis uchod. Cafodd y fath olwg ar ei bechod, yn ddisymwth, fel y bu yn ddychrynedig am beth amser; ond cafodd dawelwch yn y diwedd mewn atebiad i'w weddiau ei hun, ac ereill. Dyma ernes yr holl droedigaethau sydd wedi cymeryd lle yn Ngogledd Iwerddon, er y pryd hwnw hyd yn awr. Yn gynar yn Ionawr, 1858, dychwelwyd gŵr ieuanc arall trwy offerynoliaeth, ac mewn atebiad, i weddiau ei athraw yn yr Ysgol Sabothol, ac ereill. Dyma'r tân yn dechreu gwasgaru o galon i galon. Yr oedd teimlad dwys iawn yn nghyfarfod Cymdeithas y Credinwyr, dros y byd; yr oedd pryder yn meddyliau y bobl yn nghylch

dychweliad eu cymydogion annuwiol. Yn mhen tipyn dyma *ddau* yn llefain am drugaredd yn Connor; ac yn mhen tri mis, dychwelwyd *tri* arall mewn atebiad i'w gweddiau. Yr oedd Duw yn dweyd wrthynt trwy y dychweliadau uchod, "Ceisiwch, a chwi a gewch eto." *Yn mlaen â chwi yn benderfynol.* Yr oeddent hwythau yn benderfynol i weddio am ddychweliadau gwirioneddol ychwanegol. Dechreu y flwyddyn 1859, ymwelodd un o ddychweledigion ieuainc Connor â'i gyfeillion yn agos i Ahoghill; yr oedd yn myned o ganol y tân, yn mrwdfrydedd ei gariad cyntaf, i deulu hollol oerllyd; wedi myned at ei gyfeillion, dangosodd iddynt fod eu cyflyrau moesol yn agos at ei galon, a'i fod yn teimlo yn bryderus yn nghylch eu troedigaeth. Gweddiodd yn deimladwy, ffyddiog, taer, a difrifol drostynt yn eu presenoldeb ac yn eu habsenoldeb, a thrwy drugaredd, nid hir y bu y mwyrif o'r teulu heb gael eu hargyhoeddi, mewn atebiad i'w ddymuniadau. Ymweliad bendithfawr o eiddo cyfaill â chyfeillion oedd hwn. Bu yn offerynol, gyda bendith Duw, i ddeffroi y teulu o gysgadrwydd moesol. Dyma wreichionen o dân diwygiadol wedi ei chynu yn agos i Ahoghill, yn awr; dyma deulu yn cael eu troi at yr Arglwydd trwy offerynoliaeth cyfaill. Dyma ernes o'r holl droedigaethau rhyfedd gymerodd le trwy y plwyf o gylch ar ol hyn. Wedi i'r teulu hwn gael eu dychwelyd, dangosasant eu bod yn awyddus i gael ereill i ddiogelwch moesol a thragwyddol, trwy ymweled â'u cymydogion a'u cyfeillion, fel cenadau. Coronodd Duw eu hymdrechiadau hwythau â llwyddiant ysbrydol mawr iawn; cawsant brofion eglur fod yr hyn ddywedent, yn cael ei gario gan Ysbryd Duw i galonau. Tua chanol Chwefror, yr oedd canoedd yn mhlwyfi Drummaul, ac Ahoghill wedi cael eu dwyn o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw. Gwaeddent allan wrth yr ugeiniau fel Paul, "*Arglwydd, beth a fyni di i mi ei wneuthur?*" Yn mis Mawrth canlynol, yr oedd cyfarfodydd gweddio yn cael eu cynal mewn tai annedd, mewn ysguboriau, mewn ysgoldai, ac mewn eglwysi, ac anerchiadau yn cael eu traddodi yn hyawdl gan y dychweledigion ieuainc ynddynt. Yr oedd bywiogrwydd rhyfeddol trwy yr holl gymydogaeth-

au o fewn plwyfi Drummaul ac Ahoghill; yr oedd rhai yn cablu, ac ereill yn diolch yn uchel. Dyma y Diwygiad wedi lledu o Connor i Ahoghill a Drummaul mewn byr amser, a buddugoliaethau lluosog wedi eu henill eisioes. Y mae'r march gwyn yn gorchfygu, ac i orchfygu eto.

Yn mhen ychydig, clywyd fod Diwygiad wedi tòri allan yn Portglenone, Tully, Largey, Grange, Straid, Slatt, Galgorn Park, Cloughwater, Clough, Rasharkin, Ballymena, Ballymoney, Coleraine, Portrush, Ballycastle, Bellaghy, Antrim, Belfast, Lisburn, Lurgan, Armagh, Newry, ac yn Londonderry. Erbyn hyn, y mae wedi lledu trwy holl swyddi Ulster. Sŵn achub sydd i'w glywed yn Antrim, Down, Armagh, Monaghan, Cavan, Fermanagh, Tyrone, Donegal, ac yn Londonderry. Y mae Duw yn gwneuthur rhyfeddodau moesol yn ngwahanol drefydd a phentrefydd y swyddi uchod, y bydd cânu bythol gan luaws am danynt. Y mae arwyddion gobeithiol yn Leinster, hefyd. Y mae pobl Dublin yn teimlo yn awyddus i gael rhan o'r Diwygiad, beth bynag; hyderant nad â cafod mor fendithiol a ffrwythlon heibio heb ddihidlo ar y sir a'r ddinas. Cynelir cyfarfodydd gweddio yn y *Metropolitan Hall*, gan y gwahanol enwadau crefyddol yn gyfnodol. Gorlenwir yr *Hall* fynychaf gan foneddigion a thylodion; clywir sŵn Diwygiad yn y pennodau a ddarllenir, yn yr emynau a genir, yn y gweddiau offrymir, yn yr anerchiadau a draddodir, ac yn y dagrau tryloywon welir yn bwrlymu o lygaid degau o'r gwyddfodolion. Cyfarfod Diwygiadol yw ei enw, a chredwn fod ugeiniau yn gweddio o'u calonau am Ddiwygiad cyn myned i'r cyfarfod, yn y cyfarfod, ac wedi myned o hono. Y mae pobl grefyddol Dublin yn penderfynu profi Duw yn awr yn ol ei orchymyn; ac yr ydym yn hyderu mai nid hir y byddwn cyn clywed fod ffenestri y nefoedd wedi cael eu hagor, a chyflawnder bendith wedi cael ei thywallt arnynt. Y mae yn ddydd goleu yn Ulster, ac y mae yn dechreu gwawrio yn Leinster. Y mae Munster hefyd yn dechreu dihuno; cynelir cyfarfodydd diwygiadol yn Limerick a Cork. Gweddiant am Ddiwygiad eu hunain, ac anfonant lythyrau i wahanol gyfarfodydd

Ulster, yn dymuno rhan yn eu gweddiau. Y mae sŵn a chynhwrf yn mhlith yr esgyrn yn Munster, a llawer yn dymuno yn galonog, "O anadl, tyred oddiwrth y pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw." "Oni throi di a'n bywhau *ni*, fel y llawenycho dy bobl ynot ti? Dangos i *ni*, Arglwydd, dy drugaredd, a dod i *ni* dy iachawdwriaeth." Y mae Connaught yn lled dawel—eistedda y mwyrif yn galon-galed yn mro a chysgod angau, yn nghanol tywyllwch moesol. Ond credwn fod rhai cymeriadau eithriadol yno hefyd: un yma a'r llall draw yn gweddio am ymweliad achubol Ysbryd Duw. O! am i'r holl ynys gael ei bendithio yn fuan ag awelon Diwygiad, fel y caffo'r gweddill eu gwneud yn ddoeth i iachawdwriaeth. Lledu y mae y Diwygiad o hyd eto. Clywir am dano yn barhaus yn tòri allan mewn lleoedd newyddion. Marchog Iesu yn llwyddianus, a chymer feddiant o galonau holl breswylwyr yr ynys i ti dy hun. Cymaint a hyna ar hanes ymddangosiad y Diwygiad presenol mewn gwahanol fanau.

## ARWEDDIADAU Y DIWYGIADAU.

Y mae llawer o arweddiadau y Diwygiad hŵn yn hollol annealladwy i ni, ac felly yn anesboniadwy.

*Arweddiad corfforol.*—Y mae llawer yn cael eu taro â dallineb, byddardod, a mudandod, ac yn syrthio i lewygon: felly, ânt yn analluog i wneud dim drostynt eu hunain am amser maith. Gwelais ddwy fy hun yn Belfast yn fud a byddar. Yr oedd un o honynt yn gorwedd ar y gwely, ac yn darllen y Bibl. Ymddangosai rai prydiau yn bruddaidd iawn, a phrydiau ereill yn hynod siriol a boddhaol. Yr oedd y llall wedi bod yn gyfyngedig i'w gwely hefyd am ddyddiau, ond yr oedd wedi cryfhau cymaint fel y medrai rodio allan, ac ymweled â'i chyfeillion. Yr ydym yn hollol argyhoeddedig ei bod yn fud, ac yn fyddar. Ac ni chlywsom un o'r rhai mwyaf amheus a ymwelodd â hi yn amheu hyn am eiliad. Yr oedd ei hatebion mewn ysgrifen yn hynod foddhaol i bawb. Y mae rhai gweiniaid a chryfion eu golwg yn cael eu taro lawr yn ddisymwth. Pe buasai y

syrthio mewn llewygon yn gyfyngedig i weiniaid, buasem yn debyg o gredu fod hyny yn codi oddiar wendid cyfansoddiad; ond nid felly y mae hi. Y mae rhai o'r rhai cryfaf eu golwg wedi cael eu taro lawr. Cafodd rhai eu taro lawr wrth eu gwaith, ereill yn yr addoldai, ereill gartref, ereill ar yr heolydd, ac erelll yn y gerbydrês. Ar ol myned i'r cyflwr uchod maent yn analluog i fwyta na chysgu am ddiwrnodau, a rhai am wythnosau. Y mae eu geneuau a'u tafodau yn glöedig gan rywbeth. Ni ellir agor y genau heb arfer creulondeb. Y mae llawer o bethau dyrus yn nglŷn â'r arddangosiadau corfforol uchod—nis gellir eu deall na'u hesbonio yn foddhaol. Ond ar ol gweled, clywed, darllen, a meddwl llawer yn Iwerddon, ac wedi dyfod adreu, yr ydym yn rhwym o ddweyd, mai ein hargyhoeddiad grymus yw, fod y mudandod, y byddardod, y dallineb, a'r llewygon, yn codi, i raddau, oddiar afiechyd. Y mae pryder meddwl yn sicr o fod yn effeithio hefyd; ond ni fyddai hyny yn effeithio cymaint oni b'ai afiechyd corfforol.

Y mae ugeiniau wedi cael eu derbyn yn mhlith y gwahanol enwadau crefyddol ar ol cael eu taro lawr. Y mae'r Arglwydd yn goruwch-lywodraethu afiechyd corff i fod yn iechyd moesol i eneidiau y bobl. Ond cofier, nid yw nifer y rhai dderbyniwyd i'r eglwysi ar ol cael eu taro lawr ddim ond ychydig mewn cyferbyniad i'r canoedd dderbyniwyd, ac a dderbynir, heb gael eu taro i lawr. Dywed y Parch. S. J. Moore, mai *un o bob ugain* dderbyniwyd yn Ballymena ar ol cael eu taro lawr. Er na ellir dweyd fel yna am bob man, eto gellir dweyd fod y mwyrif yn mhob man yn cael eu derbyn heb gael eu taro lawr, yn ddall, yn fud, a byddar. Nid yw'r eglwysi yn gwrthod neb fyddo wedi ei daro lawr, os bydd yn dangos edifeirwch am ei bechod; ac nid ydynt yn eu derbyn heb brofion o edifeirwch, er iddynt gael eu taro lawr. Nid ydynt ychwaith yn gwrthod neb fyddo yn dangos eu bod yn teimlo yn edifeiriol o herwydd eu pechodau er na chawsant eu taro yn fud, yn fyddar, ac yn ddall. Yr hyn mae'r eglwysi yn ofyn mewn ymgeisydd am aelodaeth yw, A ydyw yn gofidio o herwydd pechod—yn casâu pechod—ac yn penderfynu ei adael? ac nid pa un a gafodd ei daro lawr neu beidio.

Y mae yn ffaith fod arddangosiadau corfforol yn dilyn Diwygiadau Crefyddol, i raddau mwy neu lai, yn mhob oes. Nid yw yn gyfyngedig i Iwerddon a'r Gwyddelod. Yr oedd yn nglŷn â Diwygiadau Crefyddol Sweden, America, Lloegr, Scotland, a Chymru. Syrthiodd llawer i lewygon yn Nghymru dan ddylanwad, neu yn amser diwygiadau grymus. Yr oedd yr un pethau yn cymeryd lle yn Lloegr yn y fl. 1759 ag sydd yn cymeryd lle yn Iwerddon eleni. Yr oedd arddangosiadau cyffelyb yn America yn amser yr anfarwol Jonathan Edwards hefyd. Ac yr oedd yr un pethau yn cymeryd lle yn Iwerddon ddau can mlynedd yn ol, yn amser Blair a Livingstone; a chan mlynedd yn ol yn amser Wesley a Whitfield, ag sydd yn cymeryd lle yno yn awr. Yr oedd, ac y mae arddangosiadau corfforol yn gysylltiedig â Diwygiadau Crefyddol yn mhlith gwahanol genedloedd. Paham? y mae yn anhawdd dweyd. Y mae y dirgelwch yn ormod. Barn gweinidog parchus o Scotland oedd, mai pethau allanol i alw sylw y genedl a'r byd at weithrediadau mewnol Duw ar feddyliau a chyflyrau y bobl ydynt. Ac efallai fod sefyllfa y Gwyddelod yn awr y fath ag sydd yn galw am bethau mawrion a rhyfedd, cyn y sylwant ar Dduw yn gweithio, a bod Duw yn dweyd, "Oni welwch chwi arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch." Cymaint a hyna ar yr arweddiad corfforol sydd yn nglŷn â'r Diwygiad presenol.

*Arweddiad meddyliol.*—Y mae gweithrediadau y meddwl yn ein dyrysu heblaw arddangosiadau y corff. Y mae yn amlwg fod y dychymyg yn gweithredu yn orchestol, grymus, a bywiog, tra byddo y dychweledigion yn fud, byddar, dall, ac mewn llewygon. Gwelant weledigaethau boddhaol, a dychrynllyd dros ben—gwelant y diafol yn ei hagrwch, a dychrynant rhagddo—gwelant uffern yn eu hyml, neu o danynt, a hwythau bron syrthio iddi. Dychryna hyn hwynt gymaint nes y gwaeddant allan yn wallgofus. Gwelant wenwyn a cholyn llym pechod nes arswydo ac ocheneidio—gwelant angelion, y nefoedd—y goron yn cael ei gosod ar eu penau—llyfr yn cynwys cofnodiad manwl o'u holl bechodau, a Christ yn gosod ei law yn ei waed ei hun, ac yn croesi y cofnodiad hwnw allan lle gwelont, cwpan yn llawn dwfr

grisialaidd—teimlant yn sychedig ar y pryd—yfant o hono, a diflana'r syched—ffynon loyw a gorlawn o ddwfr, a Christ yn ei ogoniant tra rhagorol. Dyna gyfres o weledigaethau rhyfedd iawn. Y mae pawb sydd yn cael gweledigaethau dymunol yn ddedwydd pan yn eu cael, ac yn meddwl gyda hyfrydwch am danynt ar ol iddynt fyned drosodd. Hoffent weled yr un pethau drachefn. Ewch lle mynoch trwy Ulster, cewch weled fod unffurfiaeth yn nodweddion y gweledigaethau. Yr un nôd sydd arnynt; nid ydynt yn wahanol mewn natur ac arwyddocad, er y gall fod gwahaniaeth cyfansoddiadol yn y personau sydd yn eu cael. Y mae yn amlwg fod llaw gan y dychymyg yn y gweledigaethau uchod. Gwel dyn bethau rhyfedd—dymunol ac annymunol yn ngwsg ac yn effro, trwy gyfrwng y dychymyg—pan fyddo y dychymyg yn ben. Y mae'r gwallgof-ddyn yn cael gweledigaethau lluosog nos a dydd, a hyny o herwydd fod y dychymyg yn eistedd ar orsedd y meddwl. Gwel dyn bethau dymunol ac annymunol mewn breuddwyd, paham? Y dychymyg sydd ar orsedd y meddwl ar y pryd. Y mae'r dychymyg yn un o alluoedd creadigol y meddwl dynol. Y mae yn was defnyddiol, ond yn feistr caled arswydus. Y mae llaw gan y dychymyg yn y gweledigaethau yn y dychweledigion mewn llewygon yn ngwahanol ranau Iwerddon; ond na fydded i neb feddwl ein bod yn credu mai cynyrchion dychymyg yw'r cwbl. Ni all neb brofi nad yw Duw yn dangos pethau rhyfedd i'r dosbarth hwn pan mewn llewygon. Nid yw ein bod ni ddim yn cael gweledigaethau felly ddim yn profi nad ydynt hwy yn eu cael. Y mae dirgelion lawer yn nglŷn â'r gweledigaethau uchod, meddyliwn am danynt fel y mynom. Teimlwn yn wylaidd wrth gynyg dweyd gair am danynt. Buom yn siarad ag amryw yn eu cylch. Elent dros yr hyn welsent mor rwydd, fel y gallasech adnabod mai nid pethau wedi eu gwneud er mwyn twyllo oeddent. Credwn nad oeddent haner ddigon *clever* i wneud pethau mor rhyfedd. Y mae y dychweledigion nid yn unig yn cael gweledigaethau, ond medrant ragfynegu llawer o bethau. Dywedant yr amser y cânt eu taro yn ddall, mud, a byddar. Y mae Crist a'r angelion yn dweyd wrthynt pa bryd y

cânt eu taro, (felly meddant hwy,) a pha bryd y cânt adferiad. Y maent wedi gwneud hyn mewn lluaws o amgylchiadau yn ngwydd llawer o dystion hollol amheus. Ai dygwyddiad yw peth felly wyddys? Y mae yn anhawdd credu fod hyn wedi *dygwydd* gynifer o weithiau. Y mae yn anmhosibl esbonio y rhagfynegiadau mwy na'r gweledigaethau. Ond y mae'r naill a'r llall yn dangos bywiogrwydd a gweithgarwch y meddwl dynol mewn canlyniad i'r symudiad diwygiadol. Cymaint a hyna ar arweddiad meddyliol y Diwygiad.

*Arweddiad personol.*—Y mae y Diwygiad yn dyfod â dynion atynt eu hunain. Rhy agos at ereill y mae y mwyrif yn byw, a rhy bell oddiwrthynt eu hunain; ond yn amser Diwygiadau, gwelir dynion yn meddwl yn ddifrifol am danynt eu hunain; clywir hwynt yn gwaeddi, "O! Dduw, bydd drugârog wrthyf bechadur," ac, "Arglwydd, beth a fyni di i *mi* ei wneuthur?' Dangosant fod eu cyflyrau moesol yn gwasgu yn drwm arnynt eu hunain o'r diwedd. Bu eu cyflyrau moesol yn agos at feddyliau gweinidogion a diaconiaid am hir amser, pan oedd ddigon pell oddiwrth eu mheddyliau eu hunain. Dyma gyfnewidiad pwysig, onide, yw clywed y bobl ddifater hyny yn llefain yn ddibaid am drugaredd i'w heneidiau anfarwol. Y mae sŵn pryder yn y gweddiau anfonir at Dduw, o wahanol fanau. Y mae'r arweddiad hwn yn arweddiad cyflyrol —y mae'r cyflwr yn d'od yn agos at y meddwl yn ddieithriad.

*Arweddiad cymdeithasol.*—Y mae cymdeithas wedi gwella llawer er dechreuad y Diwygiad presenol yn Iwerddon. Y mae cenfigen ac eiddigedd yn colli tir; y mae cariad brawdol yn cynyddu; y mae'r bobl yn cael eu dysgu gan Dduw i garu eu gilydd. Ond dywedwn ychwaneg ar hyn eto cyn terfynu.

*Arweddiad cynulliadol.*—Cynelir cyfarfodydd yn yr awyr agored yn mhob tref a phentref lle mae Diwygiad. Y mae pob enwad wrthi am eu bywyd, yn dàl ar yr amser mwyaf cyfleus i alw sylw dynion at iachawdwriaeth eu heneidiau. Wrth gynal cyfarfodydd yn yr awyr agored, cyrhaeddir dosbarth o ddynion na ddaw i un lle o addoliad un amser. Wrth basio, clywant lais

y pregethwr, sŵn cânu, neu weddio, a thröant yn gywrain at y dorf, gael clywed beth sydd yn myned yn mlaen, am dipyn. Ymwasgodd llawer mewn gwahanol fanau yn Iwerddon, er dechreuad y Diwygiad, at wrandawyr Gair Duw, dim ond o gywreinrwydd, ond daliodd Ysbryd Duw ar yr adegau hyny i gario gwirioneddau Dwyfol i'w calonau. Y mae degau o buteiniaid yn Belfast wedi eu dychwelyd mewn dull felly. Hefyd, rhaid cynal cyfarfodydd yn yr awyr agored, o herwydd fod yr addoldai lawer yn rhy fychain i gynwys y gwrandawyr. Ni fu erioed gymaint o syched am glywed y Gair yn Iwerddon ag sydd yn awr, ac ni fu cymaint o bregethu gan y gwahanol enwadau, ychwaith. Digon rhwydd cael cynulliad crefyddol yn y trefydd a'r pentrefydd, un amser o'r dydd. Buasai yn anmhosibl cynal cyfarfodydd yn yr awyr agored yn Belfast, a lleoedd ereill, ddwy flynedd yn ol, o herwydd gelyniaeth y Pabyddion; yr oedd ofn ar y pregethwyr bregethu, a'r gwrandawyr dd'od i wrando; ond y mae'r Pabyddion yn gorfod dystewi yn awr. Ceir llonyddwch i bregethu a gwrando, mewn cymhariaeth i'r hyn welwyd.

*Arweddiad dynol.*—Y mae'r diafol am rwystro lledaeniad a chynydd y Diwygiad yn yr ynys, ac i'r dyben o gyrhaedd ei amcan, rhydd ddynion ar waith yn oruchwylwyr drosto. Y mae lluaws yma a thraw trwy yr ynys, o ddynion talentog, yn ymladd yn erbyn Duw—yn sefyll ar ffordd Duw i achub y bobl. Y mae'r dynol yn ddadblygedig mewn erlidigaethau; y mae llawer wedi gorfod dyoddef eisioes o herwydd coleddu egwyddorion Protestaniaeth, yn Iwerddon. Y mae y perthynasau agosaf yn anmharchu eu gilydd oblegid plygu gerbron Duw, mewn rhai amgylchiadau; dibrisodd un fam ei mherch o herwydd darllen y Bibl. Y mae'r dynol yn ddadblygedig mewn gwawdiaeth, hefyd. Y mae llawer na feiddia erlid yn gyhoeddus, yn beiddio gwawdio yn ddigywilydd. Gwawdiant y pregethau, y gweddiau, y derbyniadau, a'r llewygon; chwarddant am ben Duw yn gweithio, a dynion yn wylo; ond nid ydym i ryfeddu am hyn yn awr, o herwydd gwawdiwyd yr apostolion pan yn llefaru yn eglurhad yr Ysbryd, a nerth. Y mae Duw wedi dangos ei anfoddlonrwydd

yn ddigon eglur mewn llawer o amgylchiadau i'r bobl sydd yn gwawdio. Rhoddwn un enghraifft o'r *Newry Telegraph*:—Yr oedd y Diwygiad yn tynu sylw anarferol mewn lle o'r enw Legacurry, yn agos i Lurgan, swydd Armagh. Yr oedd masnach wedi myned yn ail beth; dynion yn cael eu taro lawr yn ddisymwth, ac yn mhen amser yn cael tawelwch meddwl. Yr oedd yn byw yn y lle uchod ferch ieuanc o'r enw Isabella Smyth, yr hon fu mor anffodus a gwawdio y Diwygiad. Cafodd wahoddiad i fyned i gyfarfod gweddi, gan ryw un, unwaith. Dywedodd hithau fod ganddi hi ddyn i weddio drosti; ac wrth siarad am y rhai oedd yn cael eu taro lawr, dywedodd, *Os buasai hi yn cael ei tharo lawr, ei bod yn hyderu na fuasai byth yn codi.* Gwrandawodd Duw ei gweddi. Tarawodd hi lawr am bedwar o'r gloch un diwrnod, yn yr ardd; ni ddywedodd air, ac ni chododd byth mwy. Ofnadwy oedd ei chyflwr. Gochelwn wawdio gweithrediadau Duw, ddarllenydd, rhag i'n diwedd ni fod fel yr eiddo hithau. Y mae y dynol hefyd yn ddadblygedig mewn amheuaeth ac anghrediniaeth. Y mae llawer yn anghredu fod llaw gan Dduw yn y cynhyrfiad, ac ereill yn amheu. Y mae rhyfeddodau lawer yn nghlŷn â holl arweddiadau y Diwygiad, ei arweddiad corfforol, ei arweddiad meddyliol, ei arweddiad cyflyrol, ei arweddiad cymdeithasol, ei arweddiad cynulliadol, a'i arweddiad dynol.

### EFFEITHIAU Y DIWYGIAD

*Ar y cyfarfodydd gweddio.*—Yr oedd y cyfarfodydd gweddio yn hynod anmhoblogaidd yn y blyneddau mynedol yn Iwerddon; ychydig oedd yn arfer myned iddynt, a llai fyth oedd yn gweddio ar ol myned iddynt; ond y mae cyfnewidiad er gwell wedi cymeryd lle yn mhob man er dechreuad y Diwygiad hwn; y mae dynion yn dyfod iddynt o bell ffordd, a thrwy anhawsderau mawrion—cânt flas neillduol ynddynt. Yr anhawsdra gynt oedd cael dynion i gyfarfodydd gweddio; ond yr anhawsdra yn awr yw, eu darbwyllo i fyned o honynt; y mae yn hawddach ymgasglu nag ymwasgaru yno yn awr. Pan fyddo dynion yn cael gwir les mewn cyfarfodydd, aberthant er mwyn d'od iddynt, ac ni flinant ar y

darllen, na'r cânu, na'r gweddio, na'r cynghori ynddynt. Cynelir llawer o gyfarfodydd gweddio unol yn y trefydd a'r pentrefydd. Ymgasgla y gwahanol enwadau at eu gilydd i gyd-ddiolch am y tywalltiad gawsant yn barod, ac i gyd-ddymuno am ychwaneg. Cynaliwyd cyfarfod gweddi rhyfedd iawn yn Armagh, Medi 14eg, mewn cae mawr yn agos i orsaf y gerbydres. Yr oedd *ugain mil* o bobl yn bresenol. Yr oedd *Excursion Trains* yn rhedeg o bob cyfeiriad, er mwyn cyfleusdra i ddynion pell ddyfod yn brydlawn. Yr oedd holl gerbydau y gerbydres a redai o Belfast, yn orlawn o fewn, a lluaws yn gorwedd ar eu penau oddiallan. Pasiwyd rhai gorsafau, o ddiffyg lle, gan adael y bobl ar ol. Y mae proffwydoliaeth Zacharia yn cael ei chyflawnu yn awr yn Ngogledd Iwerddon (Zech. 8, 20—22). Y mae gwib-deithiau yn Nghymru yn amser eisteddfodau a chymanfaoedd, ond nid yn amser, ac er mwyn myned i gyfarfodydd gweddio; ond defnyddir y gerbydres i fyned i gyfarfodydd gweddio yn Iwerddon. Ant o un ddinas i'r llall, i weddio gerbron yr Arglwydd, a chlywir sŵn mawl yn esgyn o'r cerbydau i Dduw'r nefoedd. Ant i'r cyfarfodydd yn dorfeydd, mewn sain, cân, a moliant. Dyma gyfnewidiad mewn amser mor fyr—*miloedd* yn myned i *gyfarfodydd gweddio.* Y mae mwy o gyfarfodydd gweddio yn Iwerddon yn awr nag erioed.

*Ar yr addoliad teuluaidd.*—Y mae'r grefydd deuluaidd yn uwch yn awr nag y bu erioed yn mhlith y Gwyddelod. Nid yw y bobl yn foddlon ymadael â'u gilydd y nos i'w gwelyau, na'r borau at eu goruchwylion, heb addoli Duw. Meddyliant mai y cymhwysder gorau i fyned i'r gwely i orphwys dros wyliadwriaethau y nos, ac at eu goruchwylion tymorol y dydd, yw, addoli Duw. Y mae degau o deuluoedd cyfain yn yr ynys yn gweddio Duw yn gymdeithasol, oedd flwyddyn yn ol yn cymeryd ei enw yn ofer. Elent i'w gwelyau y nos, ac at eu gwaith y dydd heb son am addoli; ond yn awr, sŵn addoli glywir yn y borau ac yn yr hwyr yn y teuluoedd hyny: y mae y teuluoedd hyny oedd yn myned trwy yr addoliad teuluaidd ryw fodd o'r blaen, yn awr yn wresog yn yr Ysbryd yn gwasanaethu yr Arglwydd. Addolant Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharched-

ig ofn, mewn ysbryd a gwirionedd. Y mae gwir Ddiwygiad yn esgor ar gyfarfodydd newyddion, ac yn dderchafu y grefydd deuluaidd.

*Ar gyfeiliornadau.*—Y mae cyfeiliornadau yn colli tir yn gyflym yn y dyddiau presenol. Llawer un sydd wedi ymwrthod â hwynt am byth er dechreuad y Diwygiad hwn yn yr Iwerddon; y mae yno Ariaid wedi gadael egwyddorion llygredig Ariaeth; credant yn awr fod y Mab yn ogyfuwch a'r Tad, a bod y naill a'r llall yn dragwyddol. Y mae yno rhai Undodiaid wedi gadael Undodiaeth, ac yn credu fod Crist yn Dduw ac yn ddyn, mewn canlyniad. Y mae y Pabyddion yn colli eu deiliaid yn gyflym hefyd. Dywedodd Dr. Massie, yn Aberdâr, fod mwy o Babyddion wedi cael eu gwir ddychwelyd y flwyddyn yma yn Ulster ei hun, nag a ddychwelwyd trwy holl Iwerddon yn ystod yr *haner can mlynedd diweddaf.* Y mae'r Pabyddion yn gwneud eu gorau i gadw y bobl; gwaharddant hwynt i fyned i'r cyfarfodydd diwygiadol, cynghorant hwynt i gadw mor bell a allant oddiwrth Brotestaniaid, a sicrhant hwynt, ond iddynt ddefnyddio y costreleidiau meddygol sydd yn cael eu darparu ganddynt hwy, na chânt eu trechu gan ddylanwad y Diwygiad. Ond er yr holl waharddiadau, cyngorion, gocheliadau, a chostreleidiau meddygol, COLLANT Y BOBL; cymer Duw afael yn eu calonau er eu gwaethaf. Y mae hagrwch Pabyddiaeth, a theilyngdod Protestaniaeth yn dyfod i'w golwg yn ddisymwth, ac mewn canlyniad, ymwrthodant â'r naill a choleddant y llall. Y mae yr hen Babaeth yn cael ei harcholli yn ddidrugaredd yn awr; y mae y clwyfau oll yn hollol anfeddyginiaethol. Llais llawer yw yn awr, "*No Virgin for me;*" Crist yn unig i mi. Y mae Duw yn mawrhau ei Air uwchlaw ei enw oll yn y blyneddau hyn. Y mae gwir Ddiwygiad yn mawrhau gwirionedd, ac yn lladd nerth cyfeiliornad.

*Ar gnawdolrwydd enwadol.*—Y mae'r gwahanol enwadau crefyddol yn amser Diwygiad, yn debyg iawn i wahanol fyddinoedd yn amser rhyfel. Llosgant y pontydd fel na all y naill fyned at y llall. Dywed un enwad wrth y llall, sefwch chwi draw, o herwydd nis gallwn ni gydgymuno â chwi; ond yn amser Diwygiad, dodir y

pontydd yn ol, fel y gallo y naill fyned at y llall. Y mae pawb sydd yn well ganddynt am Grist nag am enwad, yn myned at eu gilydd i gyfarfodydd pregethu a gweddio; ond y mae y rhai sydd yn well ganddynt am yr enwad nag am Grist, yn cadw draw, o fewn cylch yr enwad yn unig. Y mae gwir Ddiwygiad yn dangos gwir ryddfrydigrwydd a ragfarn, b'le bynag y maent: y mae'r Diwygiad hwn yn agosâu yr enwadau crefyddol yn Iwerddon at eu gilydd; rhwymir hwynt â rhwymyn perffeithrwydd; cydweddiant am lwyddiant crefyddol. Y mae'r ddeddf sydd yn ysgaru enwadau, yn gwanhau, a'r ddeddf sydd yn eu cylymu, yn cryfhau yn amser Diwygiad Crefyddol. Gwŷn fyd pe gwawriai y borau yn fuan pan fyddo cnawdolrwydd enwadol wedi dibenu, ac *oll* yn cytuno i annghytuno.

*Ar ymddyddanion cyffredin y bobl.*—Nid oes cymaint o regu a chablu yn Iwerddon ag a fu. Nid oes cynifer o eiriau segur mewn ymarferiad, ychwaith. Dyma effaith ddymunol iawn—y bobl yn cael eu difrifoli gymaint fel na chymerant enw Duw yn ofer fel cynt, wrth siarad â'u gilydd.

*Ar gadwraeth y Saboth.*—Nid oes cymaint o dordain gartref yn awr ar ddydd yr Arglwydd, ag oedd; nid oes cymaint o rodiana a gwledda ar y Saboth, ychwaith. Codant yn fore at waith Duw; cyflawnant eu dyledswyddau yn wresog drwy'r dydd; dilynant yn hwyr nos Saboth. O'r blaen, yr oedd yn anhawdd codi yn y borau, er bod yn brydlawn yn yr addoliad, ac yr oedd llawer yn blino cyn y buasai haner y dydd drosodd; ond yn awr, cedwir y Saboth yn ofalus a pharchus. Y mae rhai cyfarfodydd wedi parhau trwy y nos, nos Sul. Y peth cyntaf glywid borau dydd Llun, oedd, sŵn cânu mawl i Dduw—heb ymadael trwy y nos. Y mae mwy yn cofio cadw yn santaidd y dydd Saboth yn awr nag a fu yn Iwerddon erioed o'r blaen. Yn uwch y delo eto yn y wlad a'r byd, nes byddo mor uchel ag y dylai fod yn ngolwg pawb.

*Ar feddwdod.*—Ni chafodd y pechod arswydus hwn ergyd lawer trymach erioed nag y mae wedi gael y flwyddyn fythgofus yma. Y mae wedi diflanu mewn llawer o fanau fu yn ddiarebol trwy gydol y blyneddau

am dano. Y mae ugeiniau o feddwon wedi eu hollol sobri yn y gwahanol siroedd eisioes. Buom ar wibdaith gyda y gerbydres Awst y 29ain, o Belfast i Giant's Causeway, ac yn ol. Ni welsom un dyn wedi yfed i ormodedd trwy'r dydd. Dychwelodd pawb yn eithaf sobr. Ni chanfyddasom ond un milwr meddw yn ~~un~~ man yn Iwerddon trwy'r amser y buom yno. Anaml y gall neb weled dyn wedi yfed gormod yn un ran o'r gogledd. Dynion sobr welir yn mhob man. Ymddangosodd erthygl yn y *Nonconformist* yn ddiweddar, yn cynwys y ffaith bwysig a ganlyn: "sef fod gwerth *mil o bunau* yn cael eu pasio o wirodydd poethion bob nos Sadwrn mewn cant ac ugain o dafarndai cyn i'r Diwygiad dòri allan yn Ballymena, ac na allasai yr holl dafarndai gyda eu gilydd basio ychwaneg na *deg swllt ar hugain* wedi iddo dòri allan." Dyma ffaith bwysig—dyma gyfnewidiad disymwth—dyma gyfnewidiad er gwell yn mhob ystyr. Mae'r tafarnwyr mewn canlyniad yn gorfod tynu lawr eu harwydd-fyrddau, a rhoddi heibio eu trwyddedau. Y mae'r Diwygiad yn lladd meddwdod. Dywedodd un am bentref Bellaghy ei bod y mwyaf anfoesol o'r pentrefydd Gwyddelig cyn i'r Diwygiad dòri allan yno: yr oedd yn ddiarebol am loddest, am feddwdod, halogi y Saboth, am ledrad, ac am gelwydd. Yr oedd yn cael ei hynodi gan y pechodau gwarthus uchod y pryd hwnw. Ond yn awr y mae yno wahaniaeth gweladwy, clywadwy, a phrofadwy. Wrth fyned trwy yr heolydd clywir sŵn cânu, llawenhau, a gorfoleddu yn Nghrist. Y mae enw Iesu yn anwyl gan y trigolion. Y mae'r bobl yn byw yn sobr, yn santeiddio y Saboth, yn byw yn onest, ac yn dweyd y gwir wrth eu gilydd. Y mae cyfnewidiad er gwell yn y pentref hwn.

Y mae llawer o dafarnwyr wedi eu dychwelyd er dechreuad y Diwygiad yn y gwahanol drefydd. Rhoddwn hanes troedigaeth un tafarnwr, ynghyd â'r hyn wnaeth ar ol hyny. Yr oedd dyn yn Belfast o'r enw Guy, yn gwerthu pêr-nwyddau (*grocery*), a gwirod poethion. Yr oedd yn aelod crefyddol er ys pymtheg mlynedd, ac nid oedd wedi cael ei ddysgyblu am un anfoesoldeb trwy gydol yr amser hwnw; a ffaith gwerth ei chofio yw, nad oedd wedi gwerthu diferyn o wirod ar y Saboth er ys

ugain mlynedd—er pan gladdwyd ei dad. Bu yn cadw tafarn am bum mlynedd cyn ymuno â'r eglwys heb werthu dafn i neb mwy na'u gilydd ar y Saboth. Dyma ymddygiad canmoladwy ac ystyriol—teilwng o efelychiad tafarnwyr. *Dyn digrefydd yn cadw tafarn am bum mlynedd heb werthu cymaint a gwerth ceiniog o wirod i neb ar ddydd Duw.* Gwridied llawer crefyddwr yn nwyneb hyn. Pan glywodd am y Diwygiad gyntaf ni chredodd ei fod o Dduw. Barnai yn hytrach yn isel am yr holl symudiad, ac y buasai yn dibenu yn fuan iawn. Pan glywodd am y cyfarfod mawr gynaliwyd yn y *Botanic Gardens*, penderfynodd fyned iddo er mwyn gweled a chlywed yn unig (yn ol ei dystiolaeth ei hun). Ond os aeth i'r cyfarfod mawr hwnw heb feddwl fawr am ei gyflwr, dychwelodd yn dra phryderus â dagrau lawer yn rhedeg yn gyflym o'i lygaid. Bu yn ymdrechu yn galed am ddyddiau cyn cael tawelwch. Wedi iddo gael tawelwch, meddyliodd y dylasai ddweyd wrth fyd ac eglwys y pethau mawr oedd Duw wedi ac yn wneud i'w enaid. Y nos Saboth canlynol aeth i yml y gweinidog yn yr areithfa lle gwelsai pawb, a mynegodd i fyd ac eglwys yr hyn wnaeth Duw i'w enaid anfarwol y dyddiau cyn hyny. Dywedodd wrthym na chymerasai y byd yn grwn, am ddweyd gair mewn lle mor gyhoeddus, ac mewn man mor bwysig a'r areithfa, ychydig ddyddiau cyn hyny. Ond yn awr nid oedd arno gywilydd o Efengyl Crist. Wedi gweled, clywed, teimlo, a gwneud pethau mawrion, dechreuodd feddwl o ddifrif am ei alwedigaeth. Aeth adreu o un cyfarfod yn llawn o sel grefyddol. Yn y tŷ, yr oedd llawer yn yfed gwirod; nis gallasai fwynhau eu cwmpeini yn awr fel cynt. Dywedodd wrth ei chwaer ei fod ef yn myned i'w ystafell wely, ac am iddi hi wneud y gorau o bethau yn ol ei gallu. Aeth, yn unol â'i benderfyniad; darllenodd a gweddiodd yn olynol am oriau. Yr oedd yn awyddus am gael meddwl Duw, ac fe'i cafodd hefyd. Gwnaeth benderfyniad i roddi y tafarn fynu yn ddioed. Dywedodd ei fwriad wrth ei chwiorydd; yr oedd un dros, a'r llall yn erbyn. Dywedodd yntau os na chytunent âg ef, y gadawsai y lle iddynt. O'r diwedd, cytunasant nad oedd gwirod i gael ei werthu yn eu tŷ hwy ar ol yr wythnos

hòno. Tynasant yr arwyddfwrdd lawr. Rhoddasant y drwydded fynu, a dechreuasant yr wythnos ganlynol yn werthwyr pernwyddau fel o'r blaen, *ond ddim yn werthwyr gwirod.* Y mae cyfnewidiad er gwell wedi cymeryd lle yn y teulu, yn mhob ystyr. Pwysed pob tafarnwr y ffaith uchod yn ystyriol yn nghlorian cydwybod oleuedig, a thragwyddoldeb. Gallasem nodi llawer o engreifftiau cyffelyb yn ychwanegol yn ngwahanol ranau Ulster, ond nis gallwn, heb chwyddo y llyfr i ormod o bris i'r cyffredin gael gafael ynddo. Y mae gwedd cymdeithas wedi newid eisioes; y mae llawer o famau, gwragedd, plant, gwŷr, a thadau, yn gorfoleddu wrth feddwl am y cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle dan eu cronglwydydd. Molant Dduw am roddi ergydion mor drwm i'r pechod oedd wedi blino, tylodi, a darostwng cymaint arnynt trwy'r blyneddau.

*Ar y grefydd ddirgelaidd.*—Y mae dynion yn ymneillduo o gymdeithas i fanau dirgelaidd, i addoli Duw, ac i weddio arno yn awr, ac nid i bechu, fel o'r blaen. Y mae'r beiau cuddiedig yn lleihau trwy gyfrwng y Diwygiad; y mae'r bobl am gael crefydd rhyngddynt â Duw, heblaw rhyngddynt â dynion.

*Ar ddarllenyddiaeth.*—Y mae chwaeth ddarllenyddol y bobl wedi ei newid i raddau pell iawn. Llyfrau crefyddol ddarllenir, ac nid llyfrau anffyddol a llygredig fel o'r blaen. Buom yn prynu ychydig lyfrau yn Belfast, gyda Phillips & Sons, a beiddiasom ofyn i'r gŵr parchus, "Pa effaith oedd y Diwygiad yn gael ar werthu llyfrau?" Dywedodd yntau, "Ei fod yn effeithio cymaint fel nad oeddent hwy na neb arall yn gallu gwerthu braidd un llyfr os na fuasai yn llyfr crefyddol." Ychydig ellir werthu o *Reynolds' Miscellany* yn y Gogledd, yn awr. Y mae y bobl wedi colli eu blas at lyfrau llygredig, ac ni ddarllenant un llyfr o duedd anffyddol. Dosbarthir traethodau crefyddol wrth y canoedd, a darllenir hwynt yn flasus gan y bobl. Y mae y Bibl yn tynu mwy o sylw nag un llyfr arall; darllenir ef gan ganoedd nad oedd yn prisio dim am dano blwyddyn i nawr. "*Chwenychir didwyll laeth y Gair.*" Dyma effaith ogoneddus iawn—cyfnewid chwaeth ddarllenyddol y bobl, a chodi awydd ynddynt i ddeall, teimlo, a

gwneuthur y Gair Dwyfol: "Gwir yw y Gair, ac yn haeddu pob derbyniad."

*Ar gerddoriaeth.*—Y mae cânu masweddol yn lleihau, a'r cânu crefyddol yn bywiocau. Cânu gwael sydd yn Iwerddon, mewn cyferbyniad i gânu Cymreig; ond y mae yn gwella; y mae celfyddyd ac ysbrydolrwydd yn ddadblygedig yn yr amrywiol dônau gênir gan y Gwyddelod.

*Ar y weinidogaeth.*—Y mae gwell pregethu gan bob enwad yn awr nag a fu o'r blaen. Mae mwy o deimlad yn yr areithfaoedd yn awr na welwyd er ys blyneddau; y mae profion yn cael eu rhoddi fod y gweinidogion yn pregethu o'u calonau, ac nid o'u deall a'u cof yn unigol, a bod y gwirioneddau dardda o galonau y gweinidogion yn cael ei gario gan Ysbryd Duw i galonau y gwrandawyr. Pregethir yn eglurhad yr Ysbryd, a nerth. Y mae'r gwrandawyr yn adnabod fod eu cyflyrau moesol yn agos at feddyliau y gweinidogion. Mae'r weinidogaeth yn symlach, yn llymach, ac yn agosach at bechaduriaid yn awr nag o'r blaen.

*Ar chwareyddiaeth.*—Y mae'r cardiau yn myned allan o fri, a difyrion mwy diniwed yn cael eu dewis. Yn ffair Dunalong, y dydd o'r blaen, yr hon a arferai fod yn dderbynfa holl grwydriaid Derry, a'r holl gymydogaeth o amgylch, i'r dyben o yfed, dawnsio, chwareu cynghwystl, ac ymladd; yr oedd masnach yn cael ei dwyn yn mlaen yn y dull mwyaf rheolaidd—heb ddim terfysg, na meddwdod, nac ymladd, na gwerthu gwirod. A dywed y *Londonderry Standard*, fod llais hyfryd peroriaeth Salmau Dafydd yn cyfodi o'r doldir ffrwythlon, ac yn cael ei gludo dros ddwfr y Foyle, i'r làn arall oddiwrth y gwasanaeth yn yr awyr agored oedd yn cael ei gynal gan weinidog parchus Donagheady. *Nid aeth dim ond un* i'r chwareudŷ, a rhoddes y rheolydd ei arian iddo yn ol, ac aeth ymaith i ryw ardal fwy anghrefyddol. Mae chwareyddiaeth bechadurus yn ei hamrywiol arweddiadau yn diflanu yn gyflym.

*Ar ladrad a llofruddiaeth.*—Y mae y bobl yn gosod mwy o werth ar feddianau a bywydau yn Ulster nag o'r blaen. Y mae nifer y troseddau uchod yn lleihau; y mae gwaith yr heddgeidwaid yn lleihau, mewn cymhar-

iaeth. Dywedodd heddgeidwaid Belfast, wrth weinidog parchus, nad oeddent yn gorfod carcharu un o bob ugain yno yn awr, mewn cyferbyniad i'r hyn oeddent cyn i'r Diwygiad dòri allan.

*Ar anffyddiaeth.*—Y mae llawer o ddynion yn ngwahanol ranau Ulster yn credu yn modolaeth Duw, ac yn anfarwoldeb eu heneidiau yn awr, oedd yn gwadu y cwbl cyn dechreuad y Diwygiad. Y mae cyfnewidiad wedi cymeryd lle mewn teimlad, barn, egwyddor, a bywyd, a hwnw yn gyfnewidiad er gwell, yn bersonol a chymdeithasol. Yr oedd un anffyddiwr yn Belfast yn gwawdio y Diwygiad â'i holl egni: chwarddai yn ynfyd am ben dynion yn llefain am drugaredd. Yr oedd yn eithaf sicr na fuasai ef yn cael ei ddwyn i sefyllfa meddwl felly gan ddim. Pan glywodd am droedigaeth ryfedd Mr. Guy, dywedodd *na allasai tri ugain o Dduwiau* ei daro ef lawr, na pheri un cyfnewidiad yn ei farn na'i fuchedd. Dyma gawr yn llaw'r diafol, yn twyllo ei hun. Ymarfogai yn erbyn saethau yr Anfeidrol; yn fuan daeth Ysbryd Duw yn mlaen; tynodd y gèn oedd ar ei lygaid, gwelodd druenusrwydd ei gyflwr. Yr oedd cywilydd arno arddel ei deimladau yn awr, o herwydd ei hòniadau rhyfygus yn flaenorol. Un diwrnod, daeth adreu i giniaw, ond ychydig o flas oedd ganddo at fwyd. Ni wyddai y wraig ddim am y cyfnewidiad oedd wedi cymeryd lle yn ei feddwl, ac nid oedd yntau am iddi hi na neb arall dd'od i wybod, ychwaith, os buasai yn bosibl. Daeth adreu y noswaith hòno yn lled bryderus. Yn absenoldeb y wraig, cydiai yn y Bibl, a darllenai ranau o hono, megys Salm. 33, a 40, a gweddiai rhwng pob Salm. Aeth i'w wely y noson fel arfer; ond ychydig gysgodd ef. Aeth at ei waith dranoeth yn brydlawn, a gofid yn ddadblygedig trwy linellau ei wynebpryd. Yr oedd ei wraig yn gwybod erbyn hyn fod rhyw beth mawr yn gwasgu ar ei feddwl, ond yn methu deall beth allai fod; ond erbyn d'od adreu i giniaw y diwrnod hwnw, yr oedd y gŵr heriodd driugain o Dduwiau i'w daro lawr, wedi cael ei lwyr drechu gan ras *un* Duw. Yr oedd yn analluog i gelu ei deimladau yn hwy. Nid oedd cywilydd arno i'r byd dd'od i wybod am danynt. Cwympodd wrth draed

Duw, a llefodd am drugaredd yn uchel. Y mae hwnw yn awr yn ymdrechu o blaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint. Y mae cyfnewidiad amlwg wedi cymeryd lle yn ei farn a'i fuchedd. Y mae gras yn gwneud gorchestion mawrion ar gyflyrau y dynion mwyaf annuwiol. Y mae llawer ereill wedi eu dychwelyd heblaw yr uchod, er dechreuad y Diwygiad. Y mae anffyddiaeth egwyddorol ac ymarferol yn colli ei nerth a'i dylanwad. Yn awr, ddarllenydd, dyna gyflawnder o ffeithiau yn dangos y gorchestion moesol y mae'r Diwygiad wedi wneud mewn cymdeithas, eisioes.

### GWAHANOL FARNAU YN NGHYLCH Y DIWYGIAD.

Y MAE dynion call, gwybodus, a chrefyddol yn gwahaniaethu yn eu barnau yn nghylch natur y Diwygiad. Gwel rhai y dwyfol i gyd, ereill y dynol i gyd, ac ereill y dwyfol a'r dynol yn ddadblygedig trwyddo. Y mae rhai yn priodoli gwaith yr Ysbryd Glân i'r ysbryd aflan yn awr fel yn amser Crist, ac fe all rhai fod yn priodoli gwaith yr ysbryd aflan i'r Ysbryd Glân. Y mae dyn yn ffaeledig, ac yn agored i dwyllo ei hun ac ereill. Ond pwy bynag edrycho yn gydwybodol ar effeithiau y Diwygiad ni all lai na gweled llaw Duw yn dra eglur. Er nad ydym yn hoffi pob peth welsom, ac a glywsom yn ngogledd Iwerddon, ac er na allwn briodoli llawer o bethau i Dduw, ond yn hytrach i ddyn, a diafol; eto nid ydym yn petruso dweyd oddiar argyhoeddiad meddyliol grymus, fod llaw uniongyrchol gan Dduw yn y symudiad. Gwyddom fod rhai yn barnu, ac yn dweyd yn wahanol er gweled, clywed, a darllen pethau mawrion. Dywedodd gweinidog o Scotland, o'r enw Mr. Gilfillan, mai gwaith y diafol yw'r cwbl, ac nid yw hyn yn amgen na dweyd mai trwy Beelzebub, penaeth y cythreuliaid, y mae'r cythreuliaid yn cael eu bwrw allan. Atebodd Dr. Campbell y gweinidog uchod yn darawiadol dros ben, pan ddywedodd, "Y buasai yn dda i Mr. Gilfillan newid pwlpud a'r diafol am ychydig Sabothau, gan fod y diafol yn gwneud mwy, a llawer gwell gwaith nag ef." Dywedodd un offeiriad Pabaidd yn nghlyw ei gynulleidfa, mai gwaith y diafol oedd yr oll o'r cynhyrfiad Diwygiadol; ac atebwyd ef yn hynod gywir gan fach-

genyn yn union "Os gwaith y diafol yw, rhaid mai diafol *newydd* yw." Meddyliai y bachgen fod yr *hen* ddiafol yn rhy gall i wneud pethau mòr ddaionus ag oedd y Diwygiad yn wneud. Buom yn siarad a Phabydd ar ben tŵr Queen's College Belfast, yn nghylch sefyllfa foesol y dref, yr hwn a ddywedodd fod cyfnewidiad rhyfedd wedi cymeryd lle yn ddiweddar yn moesau y bobl—na welodd ef gymaint o frawdgarwch rhwng dosbarthiadau gwahanol o'r bobl trwy ei oes—a'i fod yn credu mai y Diwygiad oedd wedi cynyrchu y fath welliant dymunol. Y gofyniad diweddaf gafodd oedd hwn, sef, A oedd yn credu fod y Diwygiad o Dduw, ynte gan fod pethau mor fanteisiol i gymdeithas wedi cael eu gwneud eisioes? Dywedodd ei fod yn credu nad oedd un llaw gan Dduw ynddo. Credai fod y Diwygiad wedi gwneud daioni mawr, ond ni chredai mai Duw oedd awdwr y daioni hwnw. Buom yn siarad â Phabydd arall wrth fyned o Portrush i'r *Giant's Causeway*. Gofynasom iddo, A oedd Diwygiad yn Portrush? Dywedodd yntau fod Diwygiad grymus wedi bod yno yn ddiweddar. Gofynasom eilwaith iddo, A oedd cyfnewidiad amlwg wedi cymeryd lle yn mywydau y rhai oedd wedi teimlo dylanwad y Diwygiad yn Portrush? Dywedodd yntau fod cyfnewidiad amlwg wedi cymeryd lle yn mywydau y rhan fwyaf o honynt—fod llawer o feddwon wedi dyfod yn sobr, a llawer o gablwyr yn gweddio. Barn hyd yn nod llawer o Babyddion yw, fod y Diwygiad wedi gwneud daioni dirfawr yn y wlad eisioes. Siaradodd y gwir anrhydeddus Baron Pigott, yr hwn sydd Babydd selog, yn dra ffafriol am y Diwygiad yn mrawdlys Dawn wrth gyhoeddi dedfryd uwchben tri therfysgwr o herwydd gwahaniaeth barn. Dywedodd fod y Diwygiad wedi lladd gelyniaeth enwadol yn y gogledd eisioes, a'i fod yn gobeithio y buasai yn lledu trwy yr holl wlad, ac yn effeithio ar gymdeithas yn gyffredinol. Y mae rhai o'r dynion tywyllaf, mwyaf coelgrefyddol, a gwaethaf yn gweled llaw Duw yn dod i'r golwg trwy y Diwygiad; os oes rhai o'r dynion gwybodusaf, dysgedicaf, a goreu yn gweled dim ond llaw'r diafol ynddo. Dywedodd y Parch. Hugh Hannah, fod rhai yn dweyd mai y diafol sydd yn cynhyrfu'r wlad, ac

os oedd y diafol yn llanw y capeli â gwrandawyr, ac yn peri i'r cyfryw fyw bywyd newydd, yr oedd ef yn teimlo yn awyddus i ddweyd wrth y diafol "*Go on*" "*Go on.*" Dywedodd Mr. Knox, gweinidog arall yn Belfast, os mai'r diafol sydd yn peri i ddynion lefain am drugaredd, i'r drygionus adael ei ffordd, ac i ddychwelyd at yr Arglwydd, mai efe yw'r "*blockhead*" penaf yn holl Iwerddon, o herwydd ei fod yn gweithio cymaint yn ei erbyn ei hun. Pan gafodd gynifer a 147 o ferched eu taro lawr yn melin Mr. Ewart, Belfast, yr un diwrnod gan rhywbeth dirgelaidd a grymus, effeithiodd hyny ar y felin, fel yr arosodd. Dywedodd y perchenog wedi y cwbl, ei fod yn teimlo yn llawen o herwydd fod y nefoedd wedi dod lawr ar ei weithwyr, ac na fuasai ef yn prisio pe buasai y felin yn aros pythefnos—y buasai yn talu y gweithwyr bob dydd, ond iddynt gael eu dychwelyd at Dduw mewn canlyniad. Gwyddai Mr. Ewart, na fuasai efe, fel meistr, ar ei golled yn y pendraw o fod y gweithwyr yn cael eu gwneud yn ddynion da, serch eu talu yn llawn, er colli pythefnos pan yn ymdrechu myned trwy y porth cyfyng. Y mae effeithiau y Diwygiad yn peri i ni ddweyd, "O'r Arglwydd y daeth hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni." "Yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion, am hyny yr ydym yn llawen." Y mae Duw yn gweithio, yn ddiau, yn y dyddiau yma ar gyflyrau dynion, a chredwn y ca miloedd eu dwyn i ogoniant trwy offerynoliaeth y cynhyrfiadau mae yn gynyrchu. Dywedodd Mr. James, Birmingham, ar ol bod yn nghyfarfodydd diwygiadol Cymru, gynt, "Ei fod yn hoffi y tân oedd ynddynt, ond nad oedd yn hoffi y mŵg." Dywedwn ninau, ar ol bod yn nghyfarfodydd Diwygiadol y Gwyddelod, ein bod yn hoffi y tân, ac nad oeddem yn hoffi y mŵg. Priodolwn y tân i gyd i Dduw, a'r mŵg i ddyn a'r diafol. Ond ni chawn ni dân yma heb fŵg, ac y mae yn werth i ni ddodi fynu â'r mŵg, er mwyn y tân; rhaid i ni ddodi fynu â'r dynol a'r cnawdol, er mwyn y Dwyfol a'r Ysbrydol. Buasai yn dda genym gael y naill heb y llall; ond gan na allwn gael hyny, yr ydym yn foddlon dodi fynu â'r dynol, er mwyn y lles ga'r byd trwy y Dwyfol. Teimlwn awydd i ddweyd, Diolch am Ddiwygiad Cref-

yddol, er fod rhai pethau nad ydym yn hoffi yn nghlŷn âg ef; ac O! am i'r Diwygiad presenol ledu dros y wlad a'r byd.

"Tyr'd yn mla'n, nefol dân,
Cymer eto feddiant glân."

Diolchwn lawer nad yw Duw wedi annghofio y byd. Y mae cyfrifoldeb yr eglwysi yn fawr iawn yn bresenol. Y mae y bobl yn meddwl yn ddifrifol am fater eu heneidiau, ac felly, dylai yr eglwys fod ar ei gorau yn eu dysgu ac yn eu hiawn arwain: "Deffro, deffro, gwisg dy nerth, Sion; gwisg wisgoedd dy ogoniant, santaidd ddinas Jerusalem." "A hyn fydd i'r Arglwydd yn enw ac yn arwydd tragwyddol, yr hwn ni thorir ymaith." "Nid i ni, O Arglwydd, ni i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant." Gellir galw y Diwygiad rhyfeddol hwn yn Ddiwygiad oddiwrth Ariaeth, Undodiaeth, Pabyddiaeth, a Ffurfioldeb. Amen.

DIWEDD.

BODLEIANA·BIBLIOTHECA

LLANELLI:
ARGRAFFWYD GAN REES A WILLIAMS,
HEOL-Y-PARC.